# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Mehefin 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Cofrestru

(09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30) (Tudalennau 1 - 9)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Mai, 16 Mai, a 22 Mai.

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol: Rheoliadau sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - 17 Mai 2024**

(Tudalennau 10 - 11)

**2.2 PTN 2 - Adolygiad Annibynnol o Ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Gwynion Cod Ymddygiad: Cylch gorchwyl terfynol - 20 Mai 2024**

(Tudalennau 12 - 16)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes: Cylchoedd gorchwyl pwyllgorau - 22 Mai 2024**

(Tudalennau 17 - 19)

**2.4 PTN 4 - Llythyr gan Archwilio Cymru: Hysbysiad ar y sefyllfa o ran dyddiad cau archwilio - 23 Mai 2024**

(Tudalennau 20 - 22)

2.5 **PTN 5 – Llythyr gan Archwilio Cymru: Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol – 23 Mai 2024**

(Tudalennau 23 - 49)

2.6 **PTN 6 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid, Cynulliad Gogledd Iwerddon: Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol – 29 Mai 2024**

(Tudalennau 50 - 51)

2.7 **PTN 7 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet: gohirio cyhoeddi cyllideb atodol gyntaf Llywodraeth Cymru 2024-25 – 10 Mehefin 2024**

(Tudalennau 52 - 53)

2.8 **PTN 8 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Gofal Cymdeithasol: Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) a sesiwn graffu gyffredinol – 12 Mehefin 2024**

(Tudalennau 54 - 60)

2.9 **PTN 9 – Llythyr gan y Trefnydd a'r Prif Chwip ar oblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) – 31 Mai 2024**

(Tudalennau 61 - 62)

2.10 **PTN 10 – Llythyr oddi wrth y Trefnydd a'r Prif Chwip: Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) – 14 Mehefin 2024**

(Tudalennau 63 - 64)

2.11 **PTN 11 – Llythyr ar y cyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid: Deddfau Trethi Cymru etc. (P?er i Addasu) 2022: Adran 6 (Adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf hon) – 7 Mehefin 2024**

(Tudalennau 65 - 66)

## 3 Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 7

(09.30-10.30) (Tudalennau 67 - 82)

Ed Poole, Uwch Ddarlithydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru)

**Dogfennau ategol:**

Briff Ymchwil y Senedd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.30)

## 5 Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol: Trafod y dystiolaeth

(10.30-10.45)

## 6 Newidiadau i Brotocol y Gyllideb - Ymatebion gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

(10.45-11.00) (Tudalennau 83 - 99)

**Dogfennau Ategol:**

FIN(6)-14-24 P1 - Papur blaen

FIN(6)-14-24 P2 - Llythyr gan Archwilio Cymru- 15 Ebrill 2024

FIN(6)-14-24 P3 - Llythyr gan Gomisiwn y Senedd - 30 Ebrill 2024

## 7 Ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ynghylch craffu ar y Gyllideb Ddrafft

(11.00-11.15) (Tudalennau 100 - 120)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-14-24 P4 - Papur blaen

FIN(6)-14-24 P5 - Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - 1 Mai 2024

FIN(6)-14-24 P6 - Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Ddeddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 9 Mai 2024

FIN(6)-14-24 P7 - Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Mai 2024

FIN(6)-14-24 P8 - Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai - 22 Mai 2024

FIN(6)-14-24 P9 - Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - 3 Mehefin 2024

FIN(6)-14-24 P10 – Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – 18 Mehefin 2024

## 8 Aelodaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru: Ymateb gan Archwilio Cymru

(11.15-11.30) (Tudalennau 121 – 127)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-14-24 P11 – Papur blaen

FIN(6)-14-24 P12 – Llythyr gan Archwilio Cymru: Aelodaeth o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru – 11 Mehefin 2024

FIN(6)-14-24 P13 – Llythyr at Archwilio Cymru: Aelodaeth o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru – 13 Mai 2024

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Mai 2024

Amser: 10.30 - 12.35

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/14677

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Gwella, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet: Y dull o gyhoeddi cyllidebau atodol - 29 Ebrill 2024

## 3 Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar yr Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella; a Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Trafod y dystiolaeth

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gofyn iddi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr adolygiad cyn toriad yr haf.

## 6 Y diweddaraf am aelodaeth o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

6.1 Trafododd y Pwyllgor y papur eglurhaol, a'r ddogfen ddrafft ar yr amodau a’r telerau; a chytunwyd ar y camau gweithredu a oedd wedi’u cynnwys yn y papur eglurhaol.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 16 Mai 2024

Amser: 09.30 - 10.43

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13896

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS (yn lle Rhianon Passmore AS)<br>Mike Hedges AS<br>Altaf Hussain AS (yn lle Peter Fox AS) |
| Tystion: | Shona Robison ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Llywodraeth yr Alban |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Božo Lugonja (Ymchwilydd) |

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS a Peter Fox AS.

1.3 Roedd Alun Davies AS yn dirprwyo ar ran Rhianon Passmore AS; ac roedd Altaf Hussain AS yn dirprwyo ar ran Peter Fox AS.

## 2 Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 5

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am ei ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol gan Shona Robison MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Llywodraeth yr Alban.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o ddechrau'r cyfarfod ar 22 Mai

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol: Trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 5 Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25: Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

5.1 Trafododd y Pwyllgor y papur eglurhaol ac amcangyfrifon atodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a Chomisiwn y Senedd.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Comisiwn y Senedd i sesiwn dystiolaeth ar ei amcangyfrif atodol.

## 6 Ymchwiliad i Gyfalaf Trafodion Ariannol: Papur Cwmpasu

6.1 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu a chytunodd i gynnal ymchwiliad byr ynghylch Cyfalaf Trafodion Ariannol.

## 7 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Trafod y llythyr drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft am Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) a chytunodd arno heb ddim newidiadau.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Mai 2024

Amser: 09.30 - 11.51

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/14688

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS |
| Tystion: | Hefin David AS, Comisiynydd y Senedd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, Comisiwn y Senedd<br>Kate Innes, Prif Swyddog Cyllid, Comisiwn y Senedd<br>Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau, Comisiwn y Senedd<br>Sir Paul Silk, cyn-Glerc yn Nhŷ'r Cyffredin a Senedd Cymru<br>Paul Evans, cyn-Glerc Pwyllgorau yn Nhŷ'r Cyffredin |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS. Nid oedd neb yn dirprwyo ar ran Rhianon Passmore AS.

1.2 Datganodd Mike Hedges AS mai ef yw Cadeirydd Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Datganodd hefyd ei fod yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd Pensiynau Aelodau o'r Senedd.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN 1 – Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Gwybodaeth ychwanegol am gwynion sy'n ymwneud â chynghorwyr – 16 Mai 2024**

## 3 Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25: Sesiwn dystiolaeth gyda Chomisiwn y Senedd

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 gan y tystion a ganlyn: Hefin David AS, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu; Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd; Kate Innes, Prif Swyddog Cyllid, Comisiwn y Senedd; ac Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau y Senedd, Comisiwn y Senedd.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 5, 6, 7 a 9

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gomisiwn y Senedd i ofyn am ragor o wybodaeth am ei gyllideb atodol.

## 6 Penodiadau Swyddfa Archwilio Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 7 Trafod y Flaenraglen Waith

7.1 Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith a chytunodd arni.

## Cyhoeddus

## 8 Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 6

8.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar ei ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol gan y tystion a ganlyn: Syr Paul Silk, cyn-Glerc yn Nhŷ'r Cyffredin a Senedd Cymru; a Paul Evans, cyn-Glerc Pwyllgorau yn Nhŷ'r Cyffredin.

## 9 Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol: Trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Mai 2024

Annwyl Peredur,

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi i osod rheoliadau i ychwanegu wyth corff cyhoeddus ychwanegol at adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Y cyrff cyhoeddus hyn yw Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, Trafnidiaeth Cymru (Transport for Wales), y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (Centre for Digital Public Services Ltd), Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Os bydd y rheoliadau'n cael eu pasio gan y Senedd, bydd yr wyth corff cyhoeddus yn ddarostyngedig i ddyletswydd datblygu cynaliadwy a llesiant y Ddeddf o 30 Mehefin 2024.

Cyn gosod y rheoliadau, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, rwy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y costau a amcangyfrifir i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, o ystyried y diddordeb blaenorol gan eich Pwyllgorau.

Mae'r Comisiynydd wedi darparu dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o'r costau a amcangyfrifir sy'n gysylltiedig â chyflawni dyletswydd gyffredinol a swyddogaethau statudol y Comisiynydd mewn perthynas â'r wyth corff cyhoeddus ychwanegol. Maent wedi amcangyfrif mai cyfanswm y gost flynyddol o 2024-25 ymlaen yw £120,000 (£15,000 am bob corff cyhoeddus ychwanegol). Yn dilyn trafodaethau fel rhan o'r broses heriol o osod cyllideb ddrafft 2024-25, rwy'n ddiolchgar bod y Comisiynydd wedi cytuno ar y gost amcangyfrifedig hon, a bydd y costau cyfle cysylltiedig yn cael eu talu o gyllideb bresennol y Comisiynydd. Ceir rhagor o fanylion yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ers 2022 pan wnaethom ymgynghori ar y newidiadau hyn, rydym wedi parhau i weithio gyda'r cyrff ychwanegol ac o fis Hydref 2022 mae fy swyddogion wedi darparu cyfleoedd cyfnewid dysgu a gwybodaeth rhwng cymheiriaid i gefnogi'r wyth corff cyhoeddus yn uniongyrchol wrth iddynt baratoi i fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd. Rydym yn parhau i weithio gyda'r wyth corff cyhoeddus ychwanegol yn ogystal â'r Comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y ffordd orau o gefnogi'r cyrff cyhoeddus hyn i wireddu buddion y ddyletswydd llesiant.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

**Cylch Gorchwyl: Adolygiad Annibynnol o Ymchwiliad OGCC o Gwynion Cod Ymddygiad**

**Cefndir**

Sefydlwyd swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill 2006 gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Yn 2019 diddymwyd y Ddeddf hon a'i disodli gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ("Deddf 2019"). Y Goron sy'n penodi 'Ombwdsmon' ac mae'r Ombwdsmon presennol, Michelle Morris, wedi bod yn ei swydd ers mis Ebrill 2022.

Rôl OGCC yw: 1) ystyried cwynion bod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda gwasanaethau cyhoeddus Cymru; 2) ystyried cwynion bod cynghorwyr Cymru wedi torri eu Cod Ymddygiad; a 3) gweithio gyda chyrff cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad o fewn llywodraeth leol ledled Cymru.

**Cyd-destun**

Ar 26 Mawrth 2024, rhoddodd aelod o'r cyhoedd wybod i OGCC fod aelod o staff (cyfeirir ati yma fel y "Cyn Arweinydd Tîm") wedi bod yn gwneud postiadau amhriodol ac annerbyniol o natur wleidyddol ar gyfryngau cymdeithasol.

Ataliwyd y Cyn Arweinydd Tîm o'r gwaith ar 29 Mawrth 2024 ac ymddiswyddodd o'i rôl gydag OGCC ar 3 Ebrill 2024. Bu'r Cyn Arweinydd Tîm, hyd at ddiwedd Awst 2023, yn arwain y Tîm Cod sy'n asesu ac yn ymchwilio i gwynion bod cynghorwyr lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad i gynghorwyr yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000 ('DLlL 2000').

**Cwmpas a Diben yr Adolygiad**

Diben yr adolygiad annibynnol yw ystyried prosesau OGCC ar gyfer asesu ac ymchwilio i gwynion bod aelodau o awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parc cenedlaethol a phaneli dros faterion plismon a throseddu yng Nghymru wedi torri eu Cod Ymddygiad, i sicrhau eu bod yn gadarn, yn rhydd o ragfarn wleidyddol a bod gwersi yn cael eu dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd. Nod yr adolygiad hwn yw rhoi sicrwydd ynghylch a yw prosesau, dirprwyaethau a phenderfyniadau cod ymddygiad OGCC mewn perthynas ag asesu ac ymchwilio cwynion o'r fath, wedi bod yn gadarn, yn rhydd o ragfarn wleidyddol [1] a bod gwersi yn cael eu dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd.
Er nad oes tystiolaeth ar hyn o bryd bod y Cyn Arweinydd Tîm wedi mynegi ei barn bersonol neu wedi dylanwadu ar eraill yn y swyddfa, mae OGCC yn cydnabod bod angen i unrhyw adolygiad hefyd roi sicrwydd ar benderfyniadau'r Cyn Arweinydd Tîm a'i dylanwad posibl ar eraill. Nid oes unrhyw fwriad i'r adolygiad hwn ailasesu achosion o'r newydd nac ailagor achosion.

**Cwynion Cod Ymddygiad nad ydynt yn cael eu hymchwilio**
O 1 Ebrill 2021 ymlaen, roedd y Tîm Cod yn gyfrifol am asesu cwynion Cod Ymddygiad a gwneud penderfyniadau ynghylch pa gwynion na ddylid ymchwilio iddynt. Cyn y dyddiad hwn, gwnaed yr asesiadau hyn mewn tîm gwahanol nad oedd yn cael ei reoli gan y Cyn Arweinydd Tîm.

Ar 1 Medi 2023, fel sy'n digwydd o bryd i'w gilydd yn unol ag anghenion gweithredol y swyddfa, cynhaliodd OGCC gylchdro o arweinwyr tîm a symudodd y Cyn Arweinydd Tîm i reoli tîm gwahanol yn OGCC. Y tro hwn, digwyddodd y cylchdro o ganlyniad i ymddeoliad arweinydd tîm a oedd yn rheoli Tîm Ymchwilio i Gwynion Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rhwng 1 Medi 2023 tan 22 Hydref 2023, nid oedd gan y Tîm Cod arweinydd tîm, hyd nes y bydd yr arweinydd tîm newydd yn dechrau yn y rôl hon ar 23 Hydref. Yn ystod y cyfnod lle nad oedd unrhyw arweinydd tîm yn y rôl, bu uwch reolwr yn goruchwylio gwaith y Tîm Cod Ymddygiad. Cafodd gymorth, o bryd i'w gilydd, gan y Cyn Arweinydd Tîm.

Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried penderfyniadau asesu a gymerwyd gan y Cyn Arweinydd Tîm a'r Tîm Cod o 1 Ebrill 2021 tan 22 Hydref 2023.

Mae OGCC yn cymhwyso prawf dau gam wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn. Yn gyntaf, a yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn awgrymu achos o dorri'r Cod Ymddygiad ac yn ail, a oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd.
Gan nad oedd y Cyn Arweinydd Tîm yn rheoli'r Tîm a wnaeth benderfyniadau asesu ar achosion Cod Ymddygiad cyn 1 Ebrill 2021, ni fydd yr adolygiad hwn yn ystyried penderfyniadau asesu a wnaed cyn 1 Ebrill 2021.

**Cwynion Cod Ymddygiad – achosion yr ymchwilir iddynt**
Y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau/Prif Gynghorwr Cyfreithiol sy'n gwneud penderfyniadau i gychwyn ymchwiliad o dan adran 69 o DLIL 2000.

Y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau/Prif Gynghorwr Cyfreithiol sy'n gwneud penderfyniadau i roi gorau i ymchwiliad cyn ei gwblhau.

Ar ôl cwblhau ymchwiliad, rôl OGCC yw penderfynu pa rai o'r canfyddiadau canlynol o dan a69(4) o DLIL 200 sy'n briodol:

(a) nad oes tystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r cod ymddygiad

(b) nad oes angen gweithredu mewn cysylltiad â'r materion sy'n destun yr ymchwiliad.

( c ) dylid cyfeirio'r materion sy'n destun yr ymchwiliad at swyddog monitro'r awdurdod perthnasol i'w hystyried gan ei bwyllgor safonau, neu

(d) dylid cyfeirio'r materion sy'n destun yr ymchwiliad at lywydd Panel Dyfarnu Cymru i'w dyfarnu dan dribiwnlys.

Y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau/Prif Gynghorwr Cyfreithiol sy'n gwneud penderfyniadau nad oes tystiolaeth o dorri'r Cod (fel yr amlinellwyd yn (a) uchod) neu nad oes angen gweithredu mewn cysylltiad â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt (fel yr amlinellwyd yn (b) uchod).

Bydd achosion yr ymchwiliodd y Cyn Arweinydd Tîm iddynt yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 (pan ddaeth y Cyn Arweinydd Tîm yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith 'Cod Ymddygiad') tan 23 Hydref 2023 a lle penderfynodd y Cyn Arweinydd Tîm naill ai i roi gorau iddynt neu eu cau gan nad oedd tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â'r cod neu nad oedd angen gweithredu, yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn. Er na wnaeth y Cyn Arweinydd Tîm y penderfyniad terfynol ar yr achosion hyn, bydd yr holl achosion y bu'r Cyn Arweinydd Tîm yn ymchwilio iddynt tra mewn rôl reoli yn goruchwylio gwaith achos Cod Ymddygiad ar gyfer OGCC, yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

Yr Ombwdsmon sy'n gwneud penderfyniadau i atgyfeirio mater ar gyfer gwrandawiad gan bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru o dan ( c ) neu (d) uchod.

Mae'r achosion hyn yna yn ddarostyngedig i wrandawiad annibynnol, lle gellir herio'r ymchwiliad a chraffu arno, a gellir galw ar dystion cyn i'r pwyllgor safonau perthnasol neu Banel Dyfarnu Cymru ddod i benderfyniad ynghylch a yw'r cynghorydd sy'n destun y cwynwyd amdano wedi torri'r Cod Ymddygiad, ac os felly, a ddylid gosod sancsiwn.

Gall cynghorydd apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan bwyllgor safonau i Banel Dyfarnu Cymru.

Gall cynghorydd apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan Banel Dyfarnu Cymru i'r Uchel Lys.

Mae Panel Dyfarnu Cymru a phwyllgorau Safonau yn annibynnol ar yr Ombwdsmon ac yn gwneud penderfyniadau ar achosion yn annibynnol ar yr Ombwdsmon. Mae achosion a gyfeiriwyd naill ai at bwyllgor safonau neu at Banel Dyfarnu Cymru eisoes wedi'u hadolygu gan y cyrff hynny. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau'r cyrff hynny: hynny yw, mae mecanwaith statudol ar waith sy'n caniatáu i gynghorydd sy'n ddarostyngedig i benderfyniad y cyrff hynny geisio adolygiad pellach o'r penderfyniadau hynny. Nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw bŵer i newid penderfyniad pwyllgor safonau na Phanel Dyfarnu Cymru. Yr unig ffordd y gellir herio neu newid penderfyniadau o'r fath yw drwy'r broses apelio statudol. Yn unol â hynny, ni fydd yr adolygiad yn cynnwys yr achosion hyn.

**Adolygydd Arweiniol**

**Dr Melissa McCullough**
Melissa yw Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon (ers 2020) a hefyd Comisiynydd Safonau Cynulliadau Taleithiau Jersey a Guernsey (ers Mawrth 2023). Symudodd Melissa i Belfast o'r Unol Daleithiau yn 1994 a chael PhD o Brifysgol y Frenhines Belfast, Cyfadran Meddygaeth yn 1997. Mae hi wedi gweithio fel academydd yn y gyfraith, moeseg a phroffesiynoldeb yn y DU ac Iwerddon ers 2005. Mae Melissa hefyd yn meddu ar Dystysgrif Broffesiynol Uwch mewn Ymarfer Ymchwilio, gradd Meistr mewn Biofoeseg a Moeseg Gymhwysol a gradd Baglor yn y Gyfraith. Gwasanaethodd Melissa fel cyfarwyddwr anweithredol a benodwyd gan weinidog ar y Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon o 2009 tan 2020 ac mae'n aelod o Bwyllgor Moeseg y BMJ ar hyn o bryd.

**Y Tîm Adolygu**
**Mr John Devitt**
Mae John Devitt yn Uwch Arbenigwr Goruchwylio Plismona ac Ymchwilydd Proffesiynol Annibynnol. Mae John yn gyn Dditectif Scotland Yard ac yn Uwch Ymchwilydd i Swyddfa Ombwdsmon Heddlu Gogledd Iwerddon. Mae gan John wybodaeth a phrofiad helaeth o ymchwilio i droseddau mawr. Dros ei yrfa hir, mae wedi ymgymryd â rhai o'r ymchwiliadau mwyaf heriol, cymhleth a sensitif yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae John yn aelod o'r Panel Ymgynghorol ar gyfer yr elusen Inside Justice sy'n adolygu ac yn ymchwilio i achosion honedig o gamweinyddu cyfiawnder. Mae John hefyd yn cefnogi Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon gyda'i gwaith achos cyfredol ar foeseg a safonau. Mae wedi bod yn aelod o Sefydliad yr Ymchwilwyr Proffesiynol er 1992.

**Mr Shane McAteer**
Shane McAteer yw Clerc Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon ac mae wedi gweithio fel uwch swyddog cyhoeddus ers dros 20 mlynedd, gyda phrofiad o gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chraffu ar bolisi cyhoeddus a deddfwriaeth ac o ddarparu cyngor gweithdrefnol, dadansoddi polisi a chefnogaeth broffesiynol i gynrychiolwyr etholedig. Mae gan Shane brofiad arbennig o gynghori cynrychiolwyr etholedig ar ofynion y Cod Ymddygiad ac o gefnogi'r gwaith o ddyfarnu cwynion yn erbyn cynrychiolwyr etholedig. Mae ganddo arbenigedd mewn ymchwiliadau ymddygiad/gweithle ac mae ganddo'r Dystysgrif Broffesiynol Uwch mewn Ymarfer Ymchwilio. Yn ogystal, mae gan Shane brofiad blaenorol fel Prif Swyddog Gweithredol yn y Trydydd Sector.

**Casglu Tystiolaeth**
Bydd pob un o'r Tîm Adolygu yn cael mynediad i'r gronfa ddata rheoli achosion. Ar wahân i'r hyn sydd ar gael ar y gronfa ddata rheoli achosion, bydd y Tîm Adolygu hefyd yn casglu unrhyw a phob gohebiaeth ysgrifenedig, dogfennaeth, a chyfathrebiadau sy'n ymwneud ac yn berthnasol i gwmpas a diben yr adolygiad gan gynnwys gwybodaeth e-bost, ffôn, digidol a chopi caled. Efallai y bydd y tîm Adolygu yn ystyried bod angen cyfweld ag aelodau'r tîm a staff a thrydydd partïon perthnasol eraill fel y daw i'r amlwg drwy gydol yr adolygiad.

**Canlyniadau**

Mae'r Ombwdsmon wedi penodi Melissa McCullough i arwain yr adolygiad annibynnol hwn ac i adrodd ar eu canfyddiadau.

Mae OGCC o'r farn y dylai fod gan Dr McCullough gwmpas eang ar gyfer gwneud sylwadau a dylai geisio:

1. Adolygu prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad OGCC i sicrhau eu bod yn briodol, yn deg ac yn ddiduedd ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol.
2. Adolygu'r penderfyniadau a wnaed gan y cyn arweinydd tîm a'i Thîm i beidio ag ymchwilio i gwynion Cod Ymddygiad rhwng 1 Ebrill 2021 a 22 Hydref 2023, i sicrhau bod prawf dau gam OGCC wedi cael ei gymhwyso'n gywir ac y bu penderfyniadau yn rhydd o ragfarn wleidyddol (673 o achosion).
3. Adolygu achosion lle'r oedd y cyn arweinydd tîm yn 'berchennog achos' a gafodd eu hymchwilio a'u cau heb atgyfeiriad i bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru rhwng 1 Ebrill 2019 a 22 Hydref 2023, i sicrhau nad oes tystiolaeth o ragfarn wleidyddol wrth ymdrin â'r achosion hyn (11 achos).
4. Sefydlu a oes tystiolaeth bod yr arweinydd tîm wedi mynegi ei barn bersonol ar faterion gwleidyddol yn debyg i'w postiadau cyfryngau cymdeithasol yn y swydd a/neu wedi dylanwadu'n amhriodol ar aelodau eraill o staff, wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.
5. Gwneud unrhyw argymhellion y mae Dr McCullough yn eu hystyried yn briodol a chyhoeddi adroddiad terfynol y bydd OGCC yn ei rannu â Phwyllgor Cyllid y Senedd. Os bydd Dr McCullough yn ystyried bod angen ehangu cwmpas yr adolygiad hwn, bydd hi yn hysbysu'r Ombwdsmon ac yn cytuno ar hyn.

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Y Pwyllgor Busnes**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Cadeiryddion pwyllgorau'r Senedd

22 Mai 2024

**Cylchoedd gwaith y pwyllgorau**

Annwyl Gadeirydd,

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 14 Mai, gwnaethom ystyried llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynghylch heriau mewn perthynas â chylch gwaith y Pwyllgor hwnnw sydd wedi deillio o newidiadau diweddar i bortffolios gweinidogol.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ysgrifennu at bwyllgorau eraill y Senedd i'ch gwahodd i roi unrhyw farn sydd gennych am gylch gwaith cyfredol y pwyllgorau, fel y gallwn ystyried unrhyw faterion sydd wedi codi mewn modd cydgysylltiedig.

Bwriadaf i'r Pwyllgor Busnes ddychwelyd at ystyried y materion hyn ymhellach cyn toriad yr haf, a byddwn felly'n ddiolchgar o gael eich barn neu unrhyw ystyriaethau sydd gan eich Pwyllgor erbyn dydd Gwener 21 Mehefin 2024. Rhowch wybod i mi os ydych yn rhagweld y cewch unrhyw anhawster ymateb o fewn yr amser hwn.

Rwy'n amgáu copi o'r ohebiaeth a anfonwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynghylch ei gylch gwaith er mwyn rhoi cyd-destun.

Cofion cynnes

Elin Jones

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Elin Jones AS
Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busness

10 Mai 2024

Annwyl Lywydd,

Cylchoedd Gwaith Pwyllgorau yn sgil ad-drefnu Cabinet Llywodraeth Cymru yn ddiweddar

Ysgrifennaf i ofyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried cylchoedd gwaith y pwyllgorau polisi yn dilyn penodiad y Prif Weinidog a'r ad-drefnu o bortffolios y Cabinet yn sgil hynny.

Fel y gwyddoch, mae'r newidiadau i rolau gweinidogion wedi arwain at ailddosbarthu sylweddol o gyfrifoldebau, yn enwedig rhai'r Gweinidog Newid Hinsawdd gynt. Mae cylch gwaith Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith bellach yn ymwneud â phortffolios pedwar Ysgrifennydd Cabinet, gan gwmpasu meysydd polisi amrywiol a sylweddol, fel a ganlyn:

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

- Polisi ynni, gan gynnwys ynni adnewyddadwy
- Yr economi gylchol
- Polisi porthladdoedd, gan gynnwys porthladdoedd rhydd
- Goruchwylio Maes Awyr Caerdydd
- Seilwaith cysylltedd digidol

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

- Materion newid hinsawdd a'r amgylchedd.

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth

- Gwasanaethau rheilffordd drwy fasnachfraint Cymru a'r Gororau
- Gwasanaethau bysiau
- Teithio llesol
- Polisïau ffyrdd
- Trafnidiaeth Cymru

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio

- Cynllunio, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040
- Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol
- Diogelwch tomenni glo
- Parciau Cenedlaethol

Ni chredaf ei bod yn realistig disgwyl i'r Pwyllgor allu craffu'n effeithiol ar ystod mor eang o bortffolios. Mae gennyf bryder y bydd yr heriau sy'n codi yn sgil y newidiadau i bortffolios y Cabinet yn golygu na fydd modd craffu ar rai meysydd sylweddol o bolisi Llywodraeth Cymru. Mae craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn arbennig yn debygol o fod yn anodd, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau sydd eisoes ar bwyllgorau o ran amser.

Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe byddai'r Pwyllgor Busnes yn ystyried ad-drefnu cylchoedd gwaith pwyllgorau i symleiddio nifer yr Ysgrifenyddion Cabinet y bydd yn ofynnol i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith graffu arnynt. Gallai hyn gynnwys trosglwyddo materion cynllunio a materion cysylltiedig, fel y nodir uchod, i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Gallai hefyd gynnwys trosglwyddo'r materion sy'n dod o dan bortffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddai'r newidiadau hyn yn lleihau nifer yr Ysgrifenyddion Cabinet y bydd angen i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith o bedwar i ddau. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n effeithio ar nifer yr Ysgrifenyddion Cabinet y bydd angen i'r ddau bwyllgor arall graffu arnynt.

Mae elfen o orgyffwrdd yn perthyn i gylchoedd gwaith y pwyllgorau polisi yn y Senedd, wrth gwrs, ac rwy'n cydnabod na fyddai newidiadau i gylch gwaith y Pwyllgor yn ei atal rhag edrych ar faterion drwy lens yr amgylchedd neu drwy lens newid hinsawdd. Fodd bynnag, byddai'r newidiadau hyn yn golygu nad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a fyddai'n bennaf gyfrifol am graffu ar y maes polisi hwnnw.

Rwy'n cydnabod y bydd y Pwyllgor Busnes am ymgynghori â phwyllgorau eraill fel rhan o'r broses hon a byddwn yn hapus i drafod unrhyw faterion â'r Pwyllgor.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

**Cyfeirnod:** AC415/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 23 Mai 2024

Annwyl Peredur

## Hysbysiad ar y sefyllfa o ran dyddiad cau archwilio

Ysgrifennaf ymhellach at eich llythyr 17 Gorffennaf 2023 ynghylch argymhelliad y Pwyllgor i roi gwybod i chi o ran pan na fydd modd i mi gwblhau archwiliad cyrff penodedig o fewn yr amserlen y cytunwyd arno.

Rwyf bellach yn eich hysbysu o'r archwiliadau canlynol nad oeddent yn cwrdd â'u terfynau amser ar 31 Ionawr..

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Yr eiddoch yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

| | |
|---|---|
| **Enw'r corff** | Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| **Blwyddyn archwilio** | 2022-23 |
| **'Dyddiad cau' cychwynnol** | 31 Ionawr 2024 |
| **Sylwebaeth ar oedi** | Roeddem wedi bwriadu cwblhau'r archwiliad erbyn 30 Medi 2023; Fodd bynnag, ni ellid cwblhau'r archwiliad oherwydd sawl hepgoriad yng nghyfrifon 2022-23 a gyflwynwyd i'w harchwilio.<br>Ni allai'r archwiliad ail-ddechrau tan fis Ionawr 2024, ac ar yr adeg honno nododd yr archwiliad nifer o faterion pellach a arweiniodd at oedi pellach. Adroddwyd y materion hyn yn fy Adroddiad ar y Cyfrifon. |
| **Dyddiad cwblhau archwiliad** | 25 Mawrth 2024 |
| **Enw'r cyrff** | Cronfeydd Elusennol BILI Betsi Cadwaladr<br>Cronfeydd Elusennol BILI Bae Abertawe<br>Cronfeydd Elusennol Ymddiriedolaeth GIG Felindre<br>Cronfeydd Elusennol BILI Powys |
| **Blwyddyn archwilio** | 2022-23 |
| **'Dyddiad cau' cychwynnol** | 31 Ionawr 2024 |

| | |
|---|---|
| **Sylwebaeth ar oedi** | Mae gan y pedair cronfa asedau buddsoddi sylweddol sy'n cael eu rheoli gan yr un rheolwr cronfa.<br>Mae rheolwr y gronfa, ar y cyd â'i chwmni archwilio, yn darparu adroddiad blynyddol ar y trefniadau sydd ganddi ar waith i ddarparu prisiadau ar yr asedau hynny. Mae'r adroddiad hwn yn rhan sylweddol o'n sicrwydd archwilio.<br>Nid oedd yr adroddiad yn ymwneud â'r prisiadau asedau yng nghyfrifon 2022-23 ar gael tan ddiwedd mis Mawrth 2024 a arweiniodd at oedi i'm harchwilio. |
| **Dyddiadau cwblhau archwiliad** | Cronfeydd Elusennol BILl Betsi Cadwaladr – 29 Ebrill 2024<br>Cronfeydd Elusennol BILl Bae Abertawe – 29 Ebrill 2024<br>Cronfeydd Elusennol Ymddiriedolaeth GIG Felindre – 29 Ebrill 2024<br>Cronfeydd Elusennol BILl Powys – 23 Mai 2024 |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol

Mai 2024

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Andrew Evans
Prif Swyddog Fferyllol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Cyfeirnod:** 4158A2024

**Dyddiad cyhoeddi:** 23 Mai 2024

Annwyl Andrew

Rwy'n ysgrifennu atoch i rannu canfyddiadau prosiect peilot data fferylliaeth gymunedol yr ydym wedi'i gynnal, gan weithio gyda'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru. Ein nod oedd dadansoddi data dosbarthu fferylliaeth gymunedol ar raddfa fawr, er mwyn rhoi mewnwelediad i GIG Cymru ar feysydd lle ceir twyll cost uchel a thwyll posibl. Roeddem hefyd yn gweld bod y gwaith hwn yn gyfle i ddatblygu arbenigedd Archwilio Cymru mewn technegau dadansoddeg twyll.

Fe wnaethom ddewis fferylliaeth gymunedol fel ffocws y peilot oherwydd ei fod yn faes lle ceir risg hysbys o dwyll ac nad yw'n ymddangos fel pe bai'n destun cymaint o waith craffu ar gyfer twyll â rhai o wasanaethau eraill y GIG.

Mae fferylliaeth gymunedol hefyd yn faes lle ceir gwariant sylweddol.

Gwariodd GIG Cymru gyfanswm o oddeutu £772 miliwn ar gyffuriau, offer a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch fferylliaeth gymunedol yn 2022-23. Roedd £162 miliwn o hyn yn wariant ar gydnabyddiaeth ariannol am ddarparu gwasanaethau fferylliaeth gymunedol. Roedd y £610 miliwn a oedd yn weddill yn ad-daliad am feddyginiaethau ac offer a brynwyd gan fferyllfeydd ac a ddosbarthwyd yn erbyn presgripsiynau'r GIG.

Roedd ein peilot yn cwmpasu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Fe wnaethom ganolbwyntio ein dadansoddiad ar dri maes lle ceir risgiau hysbys sy'n ymwneud â thwyll a chost: Eitemau drud; Archebion Arbennig; a Fformwleiddiadau cost uwch.

Fe wnaethom sefydlu a dilyn gweithdrefnau llywodraethu data yn ofalus, gan wneud ein gwaith o dan bwerau paru data'r Archwilydd Cyffredinol a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Fe wnaethom adeiladu offeryn data rhyngweithiol a ddadansoddodd 31 miliwn o linellau o ddata, gan gwmpasu tair blynedd o ddosbarthu, ac a amlygodd nifer o allanolion o ddiddordeb. Fe wnaethom amlygu allanolion i'r ddau fwrdd iechyd dan sylw.

Mae'r pwyntiau bwled isod yn crynhoi ein casgliadau:

- Ni chanfu ein gwaith unrhyw dystiolaeth uniongyrchol o dwyll, er i ni ganolbwyntio ar nifer fach o risgiau o dwyll. Er bod llawer o'r allanolion a amlygwyd gennym yn hysbys i'r byrddau iechyd dan sylw, nid oedd rhai ohonynt. Fe wnaeth y byrddau iechyd a'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru waith pellach i ddeall y materion a oedd yn sail i'r allanolion. Rydym yn deall bod dau wall prisio wedi cael eu canfod, â chyfanswm gwerth gordaliadau o £22,000, a bod y Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) yn cydweithio ar sut i adennill y gordaliadau hyn. Barnwyd fod modd esbonio allanolion eraill ac ni chafwyd mai achosion o dwyll neu wall oeddent.
- Mae ein gwaith wedi tynnu sylw at risg benodol mewn perthynas â rheolaethau cyfyngedig o amgylch cost Archebion Arbennig. Nid oes cyfyngiadau ar brisiau rhai Archebion Arbennig, gan gyflwyno cyfleoedd amrywiol ar gyfer twyll neu wall. Er bod hynny'n amodol ar amryw gafeatau, rydym yn amcangyfrif y **gallai tua £700,000 fod wedi cael ei arbed yng Nghymru** yn ystod y tair blynedd a gwmpaswyd gan y cynllun peilot (Ebrill 2018 – Mawrth 2021), pe bai cost Archebion Arbennig ym mhob achos lle cafodd ei dosbarthu am y gost uchaf wedi cael ei lleihau i gost dosbarthu gyfartalog yr Archebion Arbennig. Mae'n bosibl y gallai ein hamcangyfrif fod yn gorbwysleisio'r arbedion posibl gan ein bod wedi cynnwys rhai Archebion Arbennig yn ein cyfrifiad sydd â phris sefydlog ac, o'r herwydd, ni fyddai unrhyw arbediad yn bosibl. Gallai fod yn wir hefyd bod ein hamcangyfrif ni wedi'i danddatgan gan y gallai arbedion pellach fod yn bosibl trwy adolygu achosion o ddosbarthu sydd am gost uwch na'r cyfartaledd ond yn is na'r gost uchaf.
- Rydym yn tynnu sylw at risgiau cynhenid mewn perthynas â chontractwyr yr ad-delir symiau mawr o arian iddynt am weithgarwch dosbarthu mewn perthynas ag Eitemau drud. Mae'r offeryn data'n nodi pum contractwr a ddosbarthodd dros £1 miliwn o eitemau drud yn ystod y cyfnod a gwmpaswyd gan y peilot. Fel egwyddor gyffredinol, efallai y byddai'n ddoeth i fyrddau iechyd gynnal gwiriadau ychwanegol ar gyfer contractwyr sy'n dosbarthu Eitemau drud ar lefelau uchel fel hyn.

- Rydym yn ymwybodol o beth gwaith gan y Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru a pheilot posibl gan y tîm Gwirio Ar Ôl Gwneud Taliadau (PPV) ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru sy’n ymwneud ag adnabod ac adolygu risgiau o dwyll yng ngweithgarwch dosbarthu fferylliaeth gymunedol. Ac fe wyddom fod dadansoddiad byrddau iechyd o weithgarwch dosbarthu’n tueddu i ganolbwyntio ar ddata gan eu bwrdd iechyd hwy yn unig. Gall y dull hwn fod yn colli risgiau y gellid eu hadnabod trwy gymharu eu gweithgarwch dosbarthu hwy â gweithgarwch dosbarthu byrddau iechyd eraill. Hefyd, mae prosesau ar gyfer monitro gweithgarwch dosbarthu’n amrywio a gall diffyg capasiti ac adnoddau gyfyngu ar waith byrddau iechyd. Ar y cyfan, daethom i’r casgliad bod cyfle ar gyfer mwy o waith i ddadansoddi gweithgarwch dosbarthu fferylliaeth gymunedol ar sail genedlaethol at ddibenion canfod neu atal twyll a sicrhau gwerth am arian.

Rydym wedi penderfynu dod â’r peilot i ben a pheidio â datblygu’r offeryn ymhellach. Fodd bynnag, rydym wedi dysgu gwersi gwerthfawr ac rydym yn chwilio am feysydd gwaith eraill ym maes dadansoddeg twyll. Rydym hefyd yn credu y gall y GIG yng Nghymru ddysgu o’r gwaith yr ydym wedi’i wneud. Mae potensial i eraill addasu ein hofferyn, er enghraifft, i oleuo gwaith gwirio ar ôl gwneud taliadau ar gyfer dosbarthu. Gan hynny, rydym wedi darparu ein hofferyn a gwersi ehangach o’n dull ar gyfer y tîm Gwirio Ar Ôl Talu ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae’r staff hyn mewn sefyllfa well i oresgyn y cymhlethdodau llywodraethu data a brofwyd gennym ni ac maent hefyd mewn sefyllfa well i ddefnyddio’r offeryn i archwilio allanolion gyda byrddau iechyd a chontractwyr dosbarthu.

Byddai unrhyw ddull yn y dyfodol o ddadansoddi data dosbarthu ar raddfa fawr yn cael ei wella’n fawr pe bai ffynonellau data eraill yn gallu cael eu cydgysylltu, yn enwedig pe gallai defnyddwyr gael mynediad at bresgripsiynau unigol. Gall byrddau iechyd gael mynediad at bresgripsiynau unigol trwy systemau a ddarperir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ond byddai wedi bod yn rhy gymhleth i ni gael mynediad at y data yma yn y peilot. Rydym hefyd wedi dysgu y bydd gwybodaeth bynciol, amser ac awydd gan fyrddau iechyd, a thrafodaethau amlasiantaeth, yn bwysig i lwyddiant unrhyw ddulliau dadansoddeg twyll yn y dyfodol.

Nid ydym yn gwneud argymhellion penodol, ond rhestrir isod dri chwestiwn y credwn y dylai GIG Cymru, gan gynnwys ei Gyfarwyddwyr Fferylliaeth, eu hystyried, o ystyried canfyddiadau ein peilot. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb gyda manylion unrhyw gamau y bwriadwch eu cymryd mewn ymateb i’r materion hyn:

- A ydych yn fodlon ar y dulliau presennol ym mhob bwrdd iechyd, ac ar draws GIG Cymru, i adnabod ac ymchwilio i allanolion mewn perthynas â chost uchel a risg o dwyll ar gyfer gweithgarwch dosbarthu contractwyr?
- A yw gwersi allweddol ac arfer gorau mewn perthynas â'r materion hyn yn cael eu rhannu rhwng byrddau iechyd? Er enghraifft, a yw'r byrddau iechyd yn rhannu enghreifftiau o ble y mae twyll wedi cael ei adnabod i'w gwneud yn ymwybodol o risgiau?
- A oes cyfle i'r GIG yng Nghymru roi rheolaethau cost-effeithiol ychwanegol ar waith mewn perthynas â chostau amrywiol Archebion Arbennig?

Mae **Atodiad 1** yn darparu rhagor o fanylion am ein peilot paru data. Mae **Atodiad 2** yn crynhoi ein prif ganfyddiadau.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Phwyllgor Cyllid Senedd Cymru, er gwybodaeth. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r llythyr ar wefan Archwilio Cymru a rhannu'r canfyddiadau gyda phwyllgorau archwilio'r ddau fwrdd iechyd dan sylw, yn ogystal â chyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru a Grŵp Llywio Atal Twyll GIG Cymru.

Diolch yn fawr iawn i chi a'ch cydweithwyr am eu mewnbwn i'r prosiect hwn.

Yn gywir

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Atodiadau

1 Ynglŷn â'n peilot paru data

2 Prif ganfyddiadau ein peilot data

# 1 Ynglŷn â'n peilot paru data

## Cyd-destun

1 Mae twyll a gwall yn her sylweddol i gyllid cyhoeddus yng Nghymru. Rydym eisoes wedi amcangyfrif bod twyll a gwall yn costio unrhyw beth rhwng £100 miliwn ac £1 biliwn bob blwyddyn i wasanaethau cyhoeddus Cymru[1]. O ystyried ein rôl i archwilio gwariant cyhoeddus, mae gan Archwilio Cymru ddiddordeb brwd mewn camau gweithredu i leihau twyll yn y sector cyhoeddus i'r eithaf. Rydym yn hwyluso'r broses o ganfod twyll a gwallau trwy'r Fenter Twyll Genedlaethol, ac rydym yn awyddus i ddatblygu ymarferion paru data pellach.

2 Mae ein tîm Dadansoddeg Data wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru ar brosiect peilot gan ddefnyddio data dosbarthu fferylliaeth gymunedol. Mae fferylliaeth gymunedol yn faes lle ceir gwariant sylweddol a risgiau hysbys o dwyll. Gwariodd GIG Cymru gyfanswm o oddeutu £772 miliwn ar weithgarwch fferylliaeth gymunedol, a oedd yn cwmpasu costau presgripsiynu a chostau eraill yn 2022-23. Roedd £162 miliwn o hyn yn wariant ar gydnabyddiaeth ariannol am ddarparu gwasanaethau fferylliaeth gymunedol. Roedd y £610 miliwn a oedd yn weddill yn wariant i ad-daliadau am feddyginiaethau ac offer a brynwyd gan fferyllfeydd ac a ddosbarthwyd yn erbyn presgripsiynau'r GIG. Mae ymarfer syml i ddefnyddio amcangyfrif Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus bod rhwng 0.5% a 5% o holl wariant y llywodraeth yn cael ei golli oherwydd twyll a gwall[2], yn awgrymu y gallai'r swm a gollwyd mewn perthynas â'r £772 miliwn[3] amrywio o £3.9 miliwn i gymaint â £38.6 miliwn.

3 Fe wnaethom fabwysiadu dull arloesol, gan gyrchu data mewn ffordd newydd[4], gan ddadansoddi symiau mawr o ddata, a chynhyrchu offeryn data rhyngweithiol a oedd yn tynnu sylw at allanolion ac yn sail i drafodaethau wedi'u hwyluso gyda byrddau iechyd.

---

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru, Mehefin 2019

2 Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, Cross-Government Fraud Landscape Annual Report 2022, Mawrth 2023

3 Fe wnaethom gyfrifo'r ffigwr hwn gan ddefnyddio Cyfrifon Cryno GIG (Cymru) Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru. Swm cyfansymiau 'â therfyn arian parod' cost 'Gwasanaethau Fferyllol' a chost 'Cyffuriau ac offer ar bresgripsiwn' yn 'Nhabl 2.1 Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol' ydyw. Mae 'Gwasanaethau Fferyllol' yn cynnwys costau heblaw presgripsiynu, er enghraifft costau rhedeg a gwasanaethau ychwanegol fferyllfeydd cymunedol. Cost presgripsiynau gofal sylfaenol yw 'Cyffuriau ac offer ar bresgripsiwn' yn bennaf.

4 Gwnaethom gyrchu'r data o dan bwerau paru data'r Archwilydd Cyffredinol a ddarperir o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 at ddibenion cynorthwyo i atal a chanfod twyll yng Nghymru neu mewn perthynas â Chymru.

4 Y tu hwnt i nod cyffredinol, sef atal a chanfod twyll a gwallau posibl, amcanion y prosiect peilot oedd:

- creu mewnwelediadau newydd i feysydd lle ceir twyll cost uchel a thwyll posibl trwy ddadansoddi data dosbarthu ar raddfa fawr a thrwy amlygu allanolion;
- hwyluso trafodaeth rhwng rhanddeiliaid i archwilio allanolion a chytuno ar gamau gwella;
- datblygu ein harbenigedd mewn technegau dadansoddeg twyll i'w gymhwyso i brosiectau eraill; ac
- adrodd ar ein canfyddiadau i roi sicrwydd a rhywbeth i gnoi cil arno lle mae camau gweithredu yn y dyfodol o ran dadansoddeg ac atal twyll yn y cwestiwn.

## Yr hyn a wnaethom

5 Gan weithio gyda'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru, fe wnaethom gynnwys rhanddeiliaid ac arbenigwyr pwnc amrywiol eraill wrth ddatblygu ein dull. Roedd y rhain yn cynnwys Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Fferylliaeth Gymunedol Cymru[5], Grŵp Prif Fferyllwyr GIG Cymru, Awdurdod Atal Twyll y GIG yn Lloegr, a Gwasanaethau Atal Twyll GIG yr Alban.

6 Er mwyn cyfyngu ar faint y peilot, dim ond dau fwrdd iechyd a gynhwyswyd gennym yn ein dadansoddiad. Fe ddewisom ni Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg am nifer o resymau, gan gynnwys argaeledd staff a oedd yn fodlon cymryd rhan yn y peilot[6]. Rydym yn ddiolchgar iddynt fod yn rhan o'r gwaith.

5 Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn cynrychioli fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru ar faterion y GIG. Ei brif amcan yw sicrhau'r cyfleoedd, y gydnabyddiaeth ariannol a'r telerau gorau posibl lle mae gwasanaethau'r GIG yn y cwestiwn.

6 Ar 1 Ebrill 2019, symudodd y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (rhagflaenydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe) i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (rhagflaenydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg). Trwy gynnwys y byrddau iechyd cyfagos hyn yn ein cynllun peilot, fe wnaethom sicrhau bod ein data'n cwmpasu'r un sampl o fferyllfeydd cymunedol ar draws pob blwyddyn.

7 Hwn oedd y peilot cyntaf o'i fath ac, oherwydd nad yw Archwilio Cymru yn rhan o GIG Cymru, nid oes gennym ganiatâd i gael mynediad uniongyrchol at rai mathau penodol o ddata. Gofynnodd cyrff y GIG am sefydlu cytundebau rhannu data. Yn anffodus, er bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhoi anogaeth i ddefnyddio cytundebau o'r fath, ni fyddent yn gyfreithlon yn y sefyllfa hon, gan y byddent yn rhwystro hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol. Fe wnaethom ddatrys hyn trwy ddrafftio 'Protocol Rhannu Data'. Fe helpodd y protocol i sicrhau yr ymlynid wrth rwymedigaethau diogelu data ond heb lyffethair anghyfreithlon o'r fath. A chyn gofyn am y data gwreiddiol a'i gael gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, fe anfonom ni hysbysiadau preifatrwydd at fwy na 200 o gontractwyr dosbarthu fferylliaeth gymunedol a oedd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas ein gwaith (tua 28% o'r 712 fferyllfa gymunedol yng Nghymru yn 2021-22[7]).

8 Ar y cyfan, roedd yr agweddau llywodraethu data ar y peilot, er bod eu bod yn angenrheidiol, yn gymhleth ac fe gymeron nhw lawer iawn o amser i'w rhoi ar waith. Byddent hefyd wedi cymryd mwy o amser pe baem wedi cynnwys mwy na dau fwrdd iechyd.

9 Fe wnaethom adnabod meysydd risg allweddol a chanolbwyntio ar dri marciwr a oedd yn peri pryder:

a **Fformwleiddiadau cost uwch**: Gall fformwleiddiadau gwahanol (e.e. hylifau, tabledi, capsiwlau, eliau, wedi'u brandio a heb eu brandio ac ati) o'r un sylwedd gweithredol[8] amrywio'n fawr o ran pris. Bu fformwleiddiadau cost uwch yn rhan o ymchwiliad gan y Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru a arweiniodd at erlyniad troseddol[9]. Daeth hyn ar ôl i fferyllfa fod wedi dosbarthu fformwleiddiadau rhatach, yna hawlio am fformwleiddiadau drutach. Fe wnaethom nodi'r eitemau hyn fel rhai a oedd yn creu risg o dwyll, yn enwedig yn achos presgripsiynau mewn ysbytai. Mae presgripsiynau mewn ysbytai yn fwy tebygol na phresgripsiynau meddygon teulu o gael eu hysgrifennu â llaw ac felly maent yn agored i gael eu newid at ddibenion twyllodrus.

b **Eitemau drud**: Eitemau â chost net cynhwysion[10] o £100 neu fwy. Yn yr ymchwiliad uchod, roedd nifer o bresgripsiynau ar gyfer eitemau drud. Felly, fe wnaethom gynnwys y grŵp hwn o eitemau fel un o ddangosyddion posibl y risg o dwyll.

7 StatsCymru, Fferyllfeydd cymunedol yn ôl BILl a blwyddyn, 21 Mawrth 2024

8 Mae sylweddau gweithredol yn rhoi eu heffaith therapiwtig i gynhyrchion meddyginiaethol ac fe gyfeirir atynt yn aml fel cynhwysion fferyllol gweithredol.

9 Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Tynnu fferyllydd oddi ar y rhestr fferyllol yn dilyn euogfarn am dwyll gwerth £76,475, Medi 2020

10 Mae cost cynhwysion net yn cyfeirio at 'gost (a ad-delir i'r dosbarthwr) y cyffur cyn disgowntiau ac nid yw'n cynnwys unrhyw gostau na ffioedd dosbarthu. Nid yw'n cynnwys unrhyw addasiad ar gyfer incwm a geir pan fydd tâl am bresgripsiwn yn cael ei dalu ar adeg dosbarthu'r presgripsiwn neu lle mae'r claf wedi prynu tystysgrif rhag-dalu'-.

c **Archebion arbennig ('Specials')**: Eitemau y mae'n ofynnol iddynt gael eu paratoi'n arbennig gan wneuthurwr cofrestredig. Ar gyfer llawer o Archebion Arbennig – y rhai sydd ddim i'w cael yn y Tariff Cyffuriau[11] – nid oes cyfyngiad ar eu pris. Mae hyn yn peri risg o gostau uchel a/neu dwyll posibl.

10 Mae **Arddangosyn 1** yn rhoi trosolwg o'r data a ystyriwyd gennym yn y peilot.

**Arddangosyn 1: data dosbarthu a adolygwyd yn y peilot, Ebrill 2018 – Mawrth 2021**

| Set ddata | Nifer yr eitemau'n fras | Cost net cynhwysion yr eitemau'n fras |
|---|---|---|
| Fformwleiddiadau | 30,785,000 | £96.2 miliwn |
| Eitemau drud | 327,000 | £70.6 miliwn |
| Archebion Arbennig | 19,000 | £2.8 miliwn |

Nodyn: Nid yw'r setiau data'n cau ei gilydd allan; efallai fod eitemau mewn un set ddata i'w cael mewn un arall. Mae'r data fformwleiddiadau yn cynnwys oddeutu 70 o sylweddau gweithredol, sy'n cyfateb i oddeutu 1,170 o fformwleiddiadau. Mae gan bob fformwleiddiad gyfuniad gwahanredol o gryfder, ffurf, a/neu frand ar gyfer y sylwedd gweithredol penodol. Fe weithiom ni gyda'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru a'r byrddau iechyd i adnabod ystod o sylweddau gweithredol â fformwleiddiadau sy'n arbennig o ddrud a/neu'n achosi pryder.

Ffynhonnell: Data dosbarthu GIG Cymru a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

11 Fe wnaethom adeiladu offeryn data rhyngweithiol yn ailadroddol gan ddefnyddio Microsoft Power BI. Y nod oedd cynhyrchu offeryn a oedd yn ei gwneud yn bosibl archwilio'r data'n gyflym ac yn hawdd i adnabod pwyntiau pryder a oedd yn ymwneud ag anghysonderau, twyll posibl, a meysydd lle ceir cost uchel.

12 Unwaith yr oedd y byrddau iechyd wedi defnyddio'r offeryn, fe wnaethom gyfarfod â nhw a'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru i archwilio'r materion a oedd yn codi. Fe wnaethom gyflwyno sampl o allanolion a adnabuwyd gennym o ddefnyddio'r offeryn, ac yna darparodd y byrddau iechyd ymatebion cychwynnol i'r allanolion a godwyd. Roedd rhai o'r allanolion yn hawdd i'w hesbonio ac yn hysbys i'r byrddau iechyd. Nid oedd eraill yn hysbys felly fe wnaeth y byrddau iechyd a'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru waith pellach i ddeall y materion a oedd yn sail i'r allanolion.

11 Dogfen a gynhyrchir bob mis gan Wasanaethau Presgripsiwn y GIG ar ran Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU yw'r Tariff Cyffuriau. Mae'n nodi faint o arian (ar ffurf cost net cynhwysion) fydd yn cael ei ad-dalu i gontractwr dosbarthu am ddosbarthu eitem sydd wedi'i chynnwys yn y tariff, gan sefydlu pris sefydlog ar gyfer pob eitem a geir yn y tariff bob mis.

# 2 Prif ganfyddiadau ein peilot data

13 Mae'r adran hon yn crynhoi ein prif ganfyddiadau o dan y penawdau canlynol:


- a Mae'r offeryn data'n tynnu sylw at allanolion clir a allai beri pryder;
- b Mae amrywiad yng nghost Archebion Arbennig yn awgrymu potensial ar gyfer arbedion;
- c Mae gan GIG Cymru reolaethau cyfyngedig ar waith ar gyfer Archebion Arbennig;
- ch Mae risgiau cynhenid sy'n ymwneud â chontractwyr fferylliaeth gymunedol yr ad-delir symiau mawr o arian iddynt am weithgarwch dosbarthu mewn perthynas ag eitemau drud;
- d Mae cyfle ar gyfer dadansoddiad mwy canolog o'r risgiau sy'n ymwneud â dosbarthu mewn fferylliaeth gymunedol; ac
- dd Mae ein peilot wedi adnabod gwersi gwerthfawr ar gyfer dulliau dadansoddeg twyll yn y dyfodol.

## Mae'r offeryn data'n tynnu sylw at allanolion clir a allai beri pryder

14 Rydym wedi defnyddio enghreifftiau dienw, a gymerwyd o'n hofferyn rhyngweithiol, i ddangos y canfyddiadau allweddol. Mae'r offeryn yn amlygu llawer mwy o allanolion ac enghreifftiau nag a gyflwynir yma. Bydd archwiliad pellach o'r allanolion hyn yn dibynnu ar awydd gan y byrddau iechyd a'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru i ddefnyddio'r offeryn. Er ein bod yn tynnu sylw at allanolion fel a amlygwyd yn yr offeryn data, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod twyll neu wall yn bresennol na bod potensial pendant i arbed costau.

15 Mae **Arddangosyn 2** yn dangos allanolyn clir sy'n awgrymu anghysondeb mawr mewn costau. Mae'n dangos eitem a gyflwynwyd ar gyfer ad-daliad ym mis Mai 2020 a gostiodd £205 i un contractwr ond a gostiodd £14,228 wedyn pan gafodd ei chyflwyno i'w had-dalu ym mis Mehefin 2020 gan gontractwr gwahanol. Canfuom mai oherwydd gwall yn y data gwreiddiol oedd hyn, ac mai £1,428 nid £14,228 oedd y gost gywir. Ad-dalwyd y pris uwch i'r contractwr. Mae'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cydweithio yn awr ar sut i adhawlio'r gordaliad perthnasol. Rydym yn cyflwyno'r allanolyn hwn oherwydd ei fod yn dangos y potensial i offer data fel ein un ni dynnu sylw at anghysonderau o'r fath.

**Arddangosyn 2: anghysondeb* mewn cost net cynhwysion ar gyfer eitem benodol a gyflwynwyd ar gyfer ad-daliad** gan wahanol gontractwyr un mis ar wahân****




Nodiadau:

*Talwyd y £14,228 i Gontractwr dosbarthu B, yn hytrach na'r gost gywir, sef £1,428, a oedd yn ordaliad o £12,800. Mae'r gwall yn cael ei adolygu gan y Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ystyried pa gamau gweithredu i'w cymryd mewn perthynas â'r gordaliad hwn.


**Mae ad-daliad yn cyfeirio at yr arian a ad-delir i gontractwyr am gostau'r feddyginiaeth yn unig ac nid yw'n ffioedd dosbarthu na chostau eraill. Efallai na fydd y costau a ad-delir am y feddyginiaeth yr un fath â chyfanswm cost net cynhwysion yr eitemau a ddosbarthwyd gan y contractwr, gyda chontractwyr yn aml yn cael didyniadau yng nghyfanswm costau net cynhwysion yr eitemau y maent wedi'u dosbarthu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata dosbarthu GIG Cymru a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

16 Mae **Arddangosyn 3** yn dangos allanolyn clir lle mae gan gontractwr C gost fawr sy'n gysylltiedig ag Eitemau drud a roddir ar bresgripsiwn gan bresgripsiynwyr mewn ysbytai. Dosbarthodd contractwr C werth mwy na £580,000 o eitemau o'r fath rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2021, bron ddwywaith yn fwy na'r contractwr agosaf nesaf. Nid yw hyn o reidrwydd yn weithgarwch anarferol, gyda gweithgarwch dosbarthu ar gyfer presgripsiynau cleifion allanol mewn ysbytai yn dibynnu, yn rhannol o leiaf, ar bolisïau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd dan sylw.


17 Mae **Arddangosyn 4** yn cyfuno dadansoddiad o fetrig **Arddangosyn 3** â'r gyfran o gyfanswm y gost a ad-delir i gontractwyr fferylliaeth gymunedol y rhoddir cyfrif amdani gan Eitemau drud a roddir ar bresgripsiwn gan bresgripsiynwyr mewn ysbytai. Mae **Arddangosyn 4** yn dangos bod contractwr C yn allanolyn mewn perthynas â'r ddau fetrig. Roedd hyn yn rhoi mwy o bwys i'r ddadl bod contractwr C yn arddangos patrymau dosbarthu gwahanol i gontractwyr eraill. Yn yr achos hwn, roedd y bwrdd iechyd perthnasol yn gallu esbonio'r allanolyn hwn yn hawdd oherwydd agosrwydd contractwr C at yr ysbyty, ond mae'r enghraifft hon yn dangos y potensial i ganfod patrymau dosbarthu anghyson gan ddefnyddio un neu fwy nag un metrig.

**Arddangosyn 3: y pum contractwr fferylliaeth gymunedol a ddosbarthodd yr Eitemau drud â'r cyfanswm cost net cynhwysion uchaf a roddwyd ar bresgripsiwn gan bresgripsiynwyr mewn ysbytai, Ebrill 2018 – Mawrth 2021**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata dosbarthu GIG Cymru a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

**Arddangosyn 4: cymhariaeth rhwng dau fetrig o ddiddordeb, a gymhwyswyd i ddata ar gyfer contractwyr fferylliaeth gymunedol unigol, Ebrill 2018 – Mawrth 2021**




Nodyn: Mae pob dot oren yn cynrychioli contractwr unigol, gan ddangos y 50 o gontractwyr fferylliaeth gymunedol sydd â’r cyfanswm cost uchaf ar gyfer Eitemau drud, o ran cost net cynhwysion, a roddir ar bresgripsiwn gan bresgripsiynwyr mewn ysbytai.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata dosbarthu GIG Cymru a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

18 Mae **Arddangosyn 5** yn dangos sut y mae’r offeryn data’n galluogi defnyddwyr i archwilio sut y mae contractwyr fferylliaeth gymunedol yn perfformio mewn perthynas â metrigau lluosog, gan helpu i dynnu sylw at gontractwyr sy’n deilwng o ddadansoddiad pellach. Mae’r arddangosyn yn awgrymu y gallai contractwyr H a K fod o ddiddordeb arbennig i’w hadolygu.

**Arddangosyn 5: enghraifft o saith chontractwr fferylliaeth gymunedol a adolygwyd yn erbyn metrigau lluosog, Ebrill 2018 – Mawrth 2021**

Mae'r arddangosyn hwn yn seiliedig ar gymariaethau ar gyfer contractwyr sydd â rhai o'r gwerthoedd uchaf ar gyfer Metrig 2. Amlygir gwerthoedd uwch mewn lliw trymach.

| | Eitemau drud | | Archebion Arbennig | | Fformwleiddiadau cost uwch | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Contractwr | Metrig 1 | Metrig 2 | Metrig 3 | Metrig 4 | Metrig 5 | Metrig 6 |
| H | £1,498,199 | 24% | £15,836 | 0.3% | £1,184,442 | 31% |
| I | £805,751 | 22% | £19,847 | 0.5% | £847,091 | 31% |
| J | £767,544 | 33% | £3,527 | 0.2% | £375,844 | 20% |
| K | £767,056 | 27% | £353,425 | 12.6% | £482,895 | 16% |
| L | £698,364 | 23% | £6,472 | 0.2% | £544,566 | 22% |
| M | £571,122 | 22% | £23,304 | 0.9% | £424,811 | 17% |
| N | £503,651 | 26% | £6,303 | 0.3% | £302,580 | 17% |

Nodiadau:

Metrig 1 yw cyfanswm cost net cynhwysion yr holl Eitemau drud a ddosberthir gan bob contractwr. Metrig 2 yw'r gyfran o gyfanswm y gost a ad-delir i'r contractwr y rhoddir cyfrif amdani gan Fetrig 1.

Metrig 3 yw cyfanswm cost net cynhwysion yr holl eitemau o Archebion Arbennig a ddosberthir gan bob contractwr. Metrig 4 yw'r gyfran o gyfanswm y gost a ad-delir i'r contractwr y rhoddir cyfrif amdani gan Fetrig 3.

Metrig 5 yw'r cyfanswm cost net cynhwysion ar gyfer yr holl eitemau yn y set ddata fformwleiddiadau a ddosberthir gan y contractwr. Metrig 6 yw'r gyfran o fetrig 5 y mae'r eitemau llunio cost uwch a nodwyd yn cael eu dosbarthu gan bob contractwr.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata dosbarthu GIG Cymru a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru


## Mae amrywiad yng nghost Archebion Arbennig yn awgrymu potensial ar gyfer arbedion

19 Fel a nodwyd ym **mharagraff 9**, nid oes gan Archebion Arbennig nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Tariff Cyffuriau unrhyw gyfyngiad ar bris. Mae ein hofferyn data'n amlygu nifer o achosion lle mae eitem Arbennig benodol wedi amrywio'n fawr o ran y pris o fewn mis penodol.

20 Mae **Arddangosyn 6** yn dangos tuedd yng nghost net cynhwysion uchaf a chyfartalog dosbarthu eitem Arbennig benodol (tabled Sucralfate 1-gram)[12]. Mae'r costau'n amrywio'n fawr ym mhob mis, gydag achosion o'r pris fesul tabled yn codi i bron i £13 mewn un mis o'i gymharu â chyfartaledd o £3.56 am yr un mis. Ar gyfer pob mis o ddata, mae'r gwahaniaethau rhwng y pris uchaf a'r pris cyfartalog yn nodi cyfleoedd posibl i arbed costau. Os yw'r gost yn llawer uwch na'r cyfartaledd, gallai hyn fod yn achos dros gynnal adolygiad i adnabod y potensial i arbed costau.

12 Ychwanegwyd y tabledi Sucralfate 1g at y Tariff Cyffuriau ym mis Mawrth 2022, ar ôl i ni gwblhau ein peilot. Lle'r ydym wedi amlygu'r mater yma trwy ddefnyddio tabledi Sucralfate 1g fel enghraifft, mae'r mater cyffredinol yn berthnasol i'r holl eitemau Arbennig nad ydynt yn cael eu henwi yn y Tariff Cyffuriau.

**Arddangosyn 6: cost net cynhwysion uchaf a chyfartalog fesul tabled ar gyfer tabledi Sucralfate 1-gram a ddosbarthwyd gan gontractwyr fferylliaeth gymunedol, Chwefror 2020 – Mawrth 2021**




Nodyn: Mae’r dyddiadau’n cyfeirio at y dyddiad a gyflwynwyd ar gyfer ad-daliad, a all fod yn wahanol i’r dyddiad dosbarthu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata dosbarthu GIG Cymru a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

21 Fe wnaethom adnabod llawer o enghreifftiau eraill o amrywioldeb yng nghost uchaf a chyfartalog Archebion Arbennig. Er enghraifft, mae **Arddangosyn 7** yn dangos enghraifft lle cyflwynodd Contractwr O eitem ar gyfer ad-daliad o £874, tra bo contractwyr eraill wedi gwneud hynny ar gyfer ad-daliad o £435 neu lai, a hynny am yr un eitem (yr un feddyginiaeth, nifer a chryfder) o fewn yr un mis. Mae hyn yn dynodi cyfle posibl i arbed £439 neu fwy ar yr un eitem hon yn unig. Fe wnaeth y Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru adolygu'r presgripsiynau ar gyfer yr eitemau hyn. Roedd gwahaniaethau yn y prisiau i'w priodoli i'r ffaith bod y cyflenwyr a meintiau'r pecynnau'n wahanol. Cafodd pris yr hawliad o £874 ei adnabod fel un a oedd yn sylweddol wahanol i'r hawliadau eraill, ac yn enghraifft dda o bresgripsiwn a allai fod angen gwaith dilysu pellach gan y bwrdd iechyd a/neu'r tîm Gwirio Ar Ôl Gwneud Taliadau ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

**Arddangosyn 7: cost net cynhwysion 112 o dabledi o Sucralfate 1g a gyflwynwyd ar gyfer ad-daliad ym mis Mai 2018 gan bedwar contractwr fferylliaeth gymunedol**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata dosbarthu GIG Cymru a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

22 Gall y materion yn **Arddangosion 6 a 7** gyflwyno gwir botensial ar gyfer arbed costau. Fodd bynnag, heb ymchwiliad pellach, gan weithio gyda'r byrddau iechyd, yn ogystal â rhywun sydd â gwybodaeth bynciol fanwl, i adolygu presgripsiynau neu anfonebau unigol, nid ydym yn gwybod pa achosion sy'n ymddygiad arferol, yn wall neu'n dwyll.

23 Rydym yn amcangyfrif, ar gyfer y ddau fwrdd iechyd a adolygwyd, y gallai tua £200,000 fod wedi cael ei arbed dros y tair blynedd a gwmpaswyd gan y peilot pe bai pob achos o ddosbarthu Archeb Arbennig am y gost uchaf mewn mis penodol yn cael ei leihau i'w gost gyfartalog am y mis penodol[13] hwnnw. Mae'r cyfrifiad yn ystyried bob mis ar ei ben ei hun gan y gallai cost Archeb Arbennig fod wedi amrywio dros gyfnod y peilot.

13 Cost net cynhwysion uchaf fesul uned o feddyginiaeth ar gyfer meddyginiaeth ar gyfer y mis penodol. Y mis yw'r dyddiad y cyflwynwyd yr eitem ar gyfer ad-daliad, a all fod yn wahanol i'r dyddiad dosbarthu.

24 Gan ddefnyddio data gan StatsCymru[14] fe benderfynom ni fod cyfanswm cost net cynhwysion meddyginiaethau ar gyfer GIG Cymru yn ei gyfanrwydd oddeutu 3.5 gwaith yn fwy nag ar gyfer y ddau fwrdd iechyd. Mae allosod o'r ddau fwrdd iechyd i GIG Cymru gyfan gan ddefnyddio'r ffigwr hwn yn cynhyrchu amcangyfrif cyfatebol o oddeutu £700,000 mewn arbedion.

25 Cyflwynir y cyfrifiadau hyn at ddibenion eglurhaol ac maent yn amodol ar gafeatau penodol a llawer iawn o ansicrwydd. Mae'r cyfrifiadau'n tybio ei bod yn rhesymol allosod yr arbedion posibl yn y ddau fwrdd iechyd i Gymru gyfan. Mae'r cyfrifiadau hefyd yn tybio y gellid lleihau pob achos o ddosbarthu am y gost uchaf, ac felly darparu cyfle posibl i wneud arbedion. Nid yw'n glir o'r data a yw hon yn dybiaeth resymol. Mae hefyd yn bosibl y gallai ein hamcangyfrif ni fod yn gorddatgan yr arbedion posibl, o ystyried ein bod wedi cynnwys rhai Archebion Arbennig sydd â phris sefydlog yn ein cyfrifon ac, o'r herwydd, na fyddai unrhyw arbediad yn bosibl. Byddai angen rhagor o wybodaeth ac ymchwiliad i egluro'r arbedion posibl.

26 Hefyd, mae ein cyfrifiadau'n tybio ei bod hi'n rhesymol defnyddio dim ond cost uchaf a chyfartalog dosbarthu i amcangyfrif arbedion posibl. Rydym wedi defnyddio'r gost uchaf a chyfartalog oherwydd bod Archebion Arbennig yn cael eu dosbarthu'n gymharol anaml, gan ddarparu nifer cyfyngedig o achosion o ddosbarthu i gyfrifo'r arbedion bob mis ar gyfer Archeb Arbennig benodol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall ein hamcangyfrif fod yn tanddatgan yr arbedion posibl, gan nad yw'n ystyried achosion o ddosbarthu sy'n uwch na'r gost gyfartalog ond yn is na'r uchafswm. Hefyd, efallai na fydd y gost gyfartalog yn adlewyrchu gwerth da. Gallai lleihau costau i lefel is na'r cyfartaledd fod yn gyfle pellach ar gyfer arbedion posibl.

14 StatsCymru, Eitemau a chost presgripsiynau yn ôl ardal a phennod BNF yn ôl blwyddyn, 27 Mehefin 2023

## Mae gan GIG Cymru reolaethau cyfyngedig ar waith ar gyfer Archebion Arbennig

27 Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU sy'n penderfynu pa Archebion Arbennig i'w cynnwys yn y Tariff Cyffuriau[15]. Mae'r Tariff Cyffuriau wedi newid dros amser, er enghraifft Ychwanegwyd Rhan VIIID Arrangements for payment for Specials & Imported Unlicensed Medicines with Prices Determined Relative to a Commonly Identified Pack Size ' ym mis Mawrth 2022, gan gyflwyno rheolaethau ar daliadau ar gyfer rhai Archebion Arbennig ychwanegol. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw reolaethau sefydlog eraill ynghylch cost Archebion Arbennig heblaw am gynnwys yn y Tariff Cyffuriau.

28 Nid oes angen i fferyllfeydd cymunedol gael cymeradwyaeth gan fyrddau iechyd cyn dosbarthu Archebion Arbennig. Ac ni all byrddau iechyd gyfarwyddo contractwyr i ddefnyddio gweithgynhyrchwyr rhatach oni nodir hynny yn y Tariff Cyffuriau. Mae rhai byrddau iechyd yn adolygu eitemau cost uchel i sicrhau eu bod yn briodol. Gall byrddau iechyd hefyd roi cyngor a chymorth i bresgripsiynwyr Archebion Arbennig. Mae gan y presgripsiynydd gyfrifoldeb i asesu beth sy'n briodol yn glinigol i'r claf ac mae gan y contractwr dosbarthu gyfrifoldeb i godi unrhyw bryderon clinigol.

29 Gall prisiau ar gyfer Archebion Arbennig nad ydynt i'w cael yn y Tariff Cyffuriau amrywio rhwng gwahanol gontractwyr, clystyrau meddygon teulu o gontractwyr, a byrddau iechyd. Felly gall dadansoddiad o gostau Archebion Arbennig ledled Cymru, gan gymharu byrddau iechyd, amlygu cyfleoedd posibl i wneud arbedion. Nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw ddadansoddiad o'r fath yn cael ei wneud.

15 Mae'r rheolaeth hon yn cyfyngu ar y swm y gellir ei ad-dalu i'r contractwr dosbarthu, o ran cost net cynhwysion yr eitem, am ddosbarthu Archeb Arbennig yn y Tariff Cyffuriau. Mae'r rheolaeth hon wedi'i chyfyngu i'r agwedd hon wrth gyflenwi ag Archeb Arbennig. Efallai y bydd y contractwr dosbarthu wedi cynhyrchu incwm neu wedi colli arian gan ddibynnu a dalodd fwy ynteu llai na'r swm a ad-dalwyd er mwyn cael yr Archeb Arbennig gan y gwneuthurwr. Bydd y contractwr hefyd yn cael ffi ddosbarthu ychwanegol am Archeb Arbennig.


30 Mae anfonebau ar gyfer Archebion Arbennig yn nodi'r hyn y mae gwneuthurwr wedi ei godi ar gontractwr fferylliaeth am eitem benodol. Gellir eu defnyddio i gadarnhau bod y contractwr wedi hawlio ac wedi cael ad-daliad am y swm cywir. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ofyniad ar hyn o bryd i gontractwyr gyflwyno anfonebau ar gyfer Archebion Arbennig. Ac ar gyfer anfonebau sy'n cael eu cyflwyno, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw drefn i'w harchwilio'n rheolaidd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fel rhan o'r prosesau ad-dalu i gontractwyr fferylliaeth gymunedol ar gyfer Archebion Arbennig. Gallai adolygu'r anfonebau hyn fel rhan o waith dadansoddi yn y dyfodol amlygu achosion o wall neu dwyll ac arwain at arbedion posibl mewn costau. Gallai defnyddio offeryn tebyg i'n un ni ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch pa gontractwyr i ganolbwyntio arnynt.

31 O ganlyniad i'n peilot yn amlygu pryderon ynghylch cost Archebion Arbennig, mae'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru wedi trafod gyda'r tîm Gwirio Ar Ôl Gwneud Taliadau ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru pa botensial sydd ar gyfer gwaith pellach ar risgiau dosbarthu. Mae'r tîm Gwirio Ar Ôl Gwneud Taliadau wedi dysgu o'n dull i ddatblygu dangosfwrdd i amlygu data sy'n peri pryder fel rhan o beilot a allai gael ei gynnal eleni. Byddai'r peilot yn adolygu hawliadau ar anfonebau am bresgripsiynau i ganfod allanolion posibl, hawliadau gwallus posibl ac achosion posibl o gofnodi data'n anghywir. Gan ddibynnu ar y canlyniad, gall hwn ddod yn wiriad parhaol a wneir gan y tîm Gwirio Ar Ôl Gwneud Taliadau.

## Mae risgiau cynhenid sy'n ymwneud â chontractwyr fferylliaeth gymunedol yr ad-delir symiau mawr o arian iddynt am weithgarwch dosbarthu mewn perthynas ag eitemau drud

32 Mae **Arddangosyn 8** yn dangos yr wyth contractwr fferylliaeth gymunedol yn ein set ddata a ddosbarthodd yr Eitemau drud â'r cyfanswm cost uchaf (ar ffurf cost net cynhwysion). Mae'n dangos bod pum contractwr ill pump wedi dosbarthu mwy na £1 miliwn o Eitemau drud yn ystod y cyfnod a gwmpaswyd gan y peilot.

**Arddangosyn 8: yr wyth contractwr yn ein set ddata â'r cyfanswm cost net cynhwysion uchaf ar gyfer yr holl Eitemau drud a ddosbarthwyd, Ebrill 2018 – Mawrth 2021**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata dosbarthu GIG Cymru a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

33 Rhoddodd yr offeryn data werth o ran ei gwneud yn bosibl i'r contractwyr hyn a chontractwyr eraill â chostau ad-dalu mawr, ar gyfer y feddyginiaeth a'r offer a ddosbarthwyd, gael eu hadnabod yn gyflym ac yn hawdd ochr yn ochr â gwybodaeth arall ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â chontractwyr. Efallai y bydd y byrddau iechyd yn dymuno adolygu'r contractwyr hyn o ystyried y symiau mawr o arian a ad-dalwyd i'r contractwyr hyn am Eitemau drud. Fel egwyddor gyffredinol, efallai y byddai'n ddoeth i fyrddau iechyd gynnal rhai gwiriadau ychwanegol o gontractwyr sydd â lefelau uchel o gostau ad-dalu ar gyfer Eitemau drud, yn ogystal â lefelau uchel o gostau ar y cyfan, o ystyried y symiau mawr o arian sydd dan sylw a'r potensial i adnabod arbedion ac achosion o dwyll posibl.

## Mae cyfle ar gyfer dadansoddiad mwy canolog o'r risgiau sy'n ymwneud â dosbarthu mewn fferylliaeth gymunedol

34 Mae **paragraffau 20 i 26** yn amlygu'r cyfle ar gyfer arbedion penodol ond canolbwyntiodd ein peilot ni ar dri marciwr a oedd yn peri pryder yn unig. Gall twyll ddigwydd mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, gall contractwr honni ei fod wedi dosbarthu eitemau nad ydynt wedi cael eu casglu gan gleifion, gan hawlio'n dwyllodrus am gost eitemau a gweithgarwch dosbarthu nas cwblhawyd.

35 Mae gan fyrddau iechyd brosesau ar waith i fonitro amryw agweddau ar weithgarwch dosbarthu; fodd bynnag, mae'r rhain yn amrywio rhwng byrddau iechyd. Gall dibynnu ar waith byrddau iechyd unigol yn unig hefyd olygu y collir cyfleoedd i adnabod meysydd lle ceir cost uchel a thwyll posibl ledled Cymru. Er enghraifft, efallai na fydd grŵp o gontractwyr i'w gweld yn anghyson yn y bwrdd iechyd ar ei ben ei hun, ond gellid adnabod anghysondeb rhyngddynt wrth gymharu â holl gontractwyr Cymru.

36 Gall diffyg capasiti ac adnoddau mewn byrddau iechyd gyfyngu ar waith byrddau iechyd wrth ymchwilio i risgiau mewn perthynas â data dosbarthu fferylliaeth gymunedol. Gall prosesau ddibynnu ar wybodaeth ac argaeledd aelod unigol o staff, sy'n peri risgiau o ran cynllunio ar gyfer olyniaeth, yn ogystal â risgiau mewn perthynas ag un pwynt methiant. Mae cymhlethdod y dadansoddi y mae ei angen a maint y data dan sylw'n ychwanegu anghymhellion pellach sy'n atal byrddau iechyd rhag gwneud y gwaith hwn.

37 Nid ydym wedi cael ein gwneud yn ymwybodol o unrhyw waith dadansoddol i adolygu risgiau o dwyll sy'n gysylltiedig â dosbarthu mewn fferylliaeth gymunedol ar gyfer GIG Cymru ac eithrio gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru, y peilot posibl gan y tîm Gwirio Ar Ôl Gwneud Taliadau a grybwyllir ym **mharagraff 31** a'r dadansoddiad a wnaed gan fyrddau iechyd unigol ar wahân. Mae'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru wedi adolygu meysydd risg sy'n gysylltiedig â fferylliaeth gymunedol megis yr ymchwiliad cychwynnol a oleuodd ein peilot, yn ogystal ag adolygiadau o fân dreuliau. Daethom i'r casgliad y gallai rhagor o waith a gefnogir yn ganolog i ganfod ac atal twyll mewn gweithgarwch dosbarthu, yn ogystal ag i sicrhau gwerth am arian, fod yn fuddiol.

## Mae ein peilot wedi adnabod gwersi gwerthfawr ar gyfer dulliau dadansoddeg twyll yn y dyfodol

38 Rydym wedi dysgu gwersi gwerthfawr o'n peilot, gan gynnwys:

a **Mae'n ddichonadwy dadansoddi poblogaethau cyfan o ddata** – Fe wnaeth ein dull gweithredu a'n hofferyn rhyngweithiol ein galluogi i ganolbwyntio ar risgiau hysbys ac fe'i gwnaeth hi'n bosibl archwilio miliynau o eitemau data. Gallai hyn ei gwneud hi'n bosibl cynnal dadansoddiad llawer mwy manwl na dulliau samplu, mwy cyfyngedig.

b **Mae gwybodaeth bynciol a thrafodaethau amlasiantaeth yn hanfodol** – Roedd y dadansoddiad o risgiau penodol yn fwyaf effeithiol pan oedd staff y byrddau iechyd yn trafod gyda'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru ac Archwilio Cymru. Fe wnaeth y trafodaethau hyn ddwyn ynghyd gyfuniad o wybodaeth leol a gwybodaeth bynciol, yn ogystal â sgiliau arbenigol ym maes twyll a data. Heb wybodaeth bynciol fanwl a oedd yn gysylltiedig â realiti beunyddiol fferylliaeth gymunedol ac arferion dosbarthu, roedd hi weithiau'n anodd i ni ddeall y risgiau a'r materion yn llawn.

c **Mae angen amser ac awydd mewn byrddau iechyd i ddefnyddio offer data** – Roedd ein dull gweithredu ni'n dibynnu ar sefyllfa lle'r oedd gan staff byrddau iechyd amser i archwilio'r offeryn data. Heb hyn, efallai na fydd offer yn y dyfodol yn cael eu defnyddio'n llawn, a gallai cyfleoedd i adnabod ac ymateb i bryderon gael eu colli.

ch **Byddai'n fuddiol cydgysylltu data ein peilot ni â ffynonellau data eraill** – Byddai unrhyw ddull yn y dyfodol o ddadansoddi data dosbarthu ar raddfa fawr yn cael ei wella'n fawr pe bai modd cydgysylltu ffynonellau data eraill, yn enwedig pe gallai defnyddwyr gael mynediad at bresgripsiynau unigol. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl archwilio allanolion mewn modd effeithlon, gyda'r holl ddata mewn un lle. Roedd y diffyg data ar bresgripsiynau unigol yn rhwystr yn ein prosiect peilot. Gall byrddau iechyd gael mynediad at bresgripsiynau unigol trwy systemau a ddarperir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ond byddai wedi bod yn rhy gymhleth i ni gael mynediad at y data yma yn y peilot gan nad ydym yn un o sefydliadau'r GIG ac y byddai'r gofynion llywodraethu data wedi bod yn sylweddol.

39 Ni chanfu ein gwaith unrhyw dystiolaeth uniongyrchol o dwyll, er bod ein gwaith wedi canolbwyntio ar nifer fach o risgiau o dwyll. Er bod llawer o'r allanolion y tynnon ni sylw atynt yn hysbys i'r byrddau iechyd dan sylw, nid oedd rhai ohonynt yn hysbys iddynt. Fe wnaeth y byrddau iechyd a'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru waith pellach i ddeall y materion a oedd yn sail i'r allanolion. Rydym yn deall bod dau wall prisio wedi cael eu canfod, â chyfanswm gwerth gordaliadau o £22,000, a bod y Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yng Nghymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru bellach yn cydweithio ar sut i adennill y gordaliadau hyn. Barnwyd fod modd esbonio allanolion eraill ac ni chafwyd mai achosion o dwyll neu wall oeddent.

40 Rydym wedi penderfynu dod â'r peilot i ben a pheidio â datblygu'r offeryn ymhellach. Mae hyn yn bennaf oherwydd cymhlethdodau cyflawni prosiect o'r fath fel sefydliad allanol i'r GIG yng Nghymru (gweler **paragraffau 7 ac 8**). Fodd bynnag, byddwn yn adeiladu ar y gwersi o'r peilot ac yn ceisio cynnal prosiectau dadansoddeg twyll newydd, gan gynnwys un gan ddefnyddio dull paru data i archwilio a yw cleifion wedi'u cofrestru'n gywir ar restrau meddygon teulu.

Archwilio Cymru
Audit Wales


Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Eitem 2.6

**From the Minister of Finance**

Department of Finance
An Roinn Airgeadais
www.finance-ni.gov.uk

*Peredur Owen Griffiths MS*
*Chair of the Senedd's Finance Committee*

*SeneddFinance@senedd.wales*

Private Office
2nd Floor
Clare House
303 Airport Road West
BELFAST
BT3 9ED

**Tel:** [redacted]

**Our reference:** COR-1244-2024
**Date:** 29 May 2024

Peredur, a chara

**COR-1244-2024: INQUIRY INTO FISCAL INTERGOVERNMENTAL RELATIONS**

Thank you for your letter of 08 May 2024 in relation to the Committee's inquiry into Fiscal Intergovernmental Relations.

Your letter relates to a dispute that the Executive has raised with the Treasury in 2022. This dispute relates to the funding for the Troubles Permanent Disablement Scheme. This is a scheme which makes payments to individuals who have been permanently disabled as a result of an injury related to the conflict here.

The nature of the Executive's dispute is that the Scheme that was designed and legislated for by the British Government is substantially broader in scope, in terms of eligibility, than that which was agreed by the local political parties here as part of the Stormont House Agreement. The Regulations which introduced the Scheme were made by the Secretary of State at Westminster in January 2020, in the absence of the Executive.

The Executive therefore believes that the British Government has an obligation to meet the cost of the Scheme. This is based on the principle set out in the Statement of Funding Policy that "*where … decisions of UK government departments or agencies lead to additional costs for any of the devolved administrations, where*

*other arrangements do not exist automatically to adjust for such extra costs (e.g. if the Barnett formula doesn't apply), the body whose decision leads to the additional cost will meet that cost*."

In terms of the current status of the dispute, the process was paused in October 2022 when Executive Ministers left office. Treasury officials indicated that the process could not be taken forward in the absence of the Executive. Given the return of the Executive, I intend to engage with Treasury to seek to restart the dispute process.

I hope this is helpful but please get in touch if you require any further details.

Is mise le meas



**DR CAOIMHE ARCHIBALD MLA**
**MINISTER OF FINANCE**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/RE/5565/24

Peredur Owen Griffiths AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Y Senedd,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

10 Mehefin 2024

Annwyl Peredur

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 29 Ebrill 2024 ynghylch fy ymagwedd at gyhoeddi cyllidebau atodol yn ystod 2024-25, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o newid i'r cynlluniau hynny.

Er fy mod yn bwriadu parhau â'r arfer o gyhoeddi dwy gyllideb atodol yn ystod y flwyddyn ariannol, rwyf wedi penderfynu gohirio cyhoeddi'r gyllideb atodol gyntaf.

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU am Etholiad Cyffredinol ar 4 Gorffennaf a diddymu Senedd y DU ar 30 Mai, mae swyddogion Trysorlys EF wedi cadarnhau na fydd y Prif Amcangyfrifon ar gyfer 2024-25 yn cael eu gosod ac na fydd pleidlais arnynt nes i Senedd y DU ddychwelyd ar ôl yr etholiad.

O dan yr amgylchiadau nid oes unrhyw opsiwn gwirioneddol ond gohirio cyhoeddi'r gyllideb atodol gyntaf nes y byddwn mewn sefyllfa i gadarnhau ein cyfansymiau rheoli diwygiedig ac nes y bydd pleidlais wedi bod ar y Prif Amcangyfrifon a phan fyddant ar gael i'r cyhoedd.

Gyda thoriadau'r haf yn disgyn rhwng 22 Gorffennaf a 15 Medi, er mwyn caniatáu'r isafswm o dair wythnos ar gyfer craffu o dan y Rheolau Sefydlog, caiff y gyllideb atodol gyntaf ei chyhoeddi bellach ar ôl toriad yr haf. Ni chytunwyd ar unrhyw amserlen eto, ond byddaf yn eich hysbysu maes o law. Rwyf yn disgwyl mai ar ddechrau tymor yr Hydref y bydd hyn.

Er gwaethaf yr oedi cyn cyhoeddi'r gyllideb atodol gyntaf, ni fydd hyn yn effeithio ar fy mwriad i gyhoeddi ail gyllideb atodol tua diwedd y flwyddyn ariannol.

Yn y cyfamser, gan fod cyfrifoldebau Ysgrifennydd y Cabinet wedi newid ers i Gyllideb Derfynol 2024-25 gael ei chyhoeddi ym mis Chwefror, rwyf yn bwriadu cyhoeddi ailddatganiad o dablau'r Gyllideb Derfynol i adlewyrchu'r newidiadau mewn strwythur a'r Prif Grwpiau Gwariant (MEGs) newydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd datganiad ysgrifenedig a thablau cyllideb wedi'u hailddatgan yn cael eu cylchredeg i'r aelodau cyn gynted ag y bydd y tablau wedi'u gosod gerbron y Senedd. Bydd y tablau sydd wedi eu hailddatgan wedyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd y ailddatganiad ar gael o fewn yr wythnosau nesaf.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Busnes, Comisiwn y Senedd, Archwilio Cymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er gwybodaeth.

Gobeithio y bydd y diweddariad hwn yn ddefnyddiol ichi.

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol

12 Mehefin 2024

Annwyl Dawn

Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) a sesiwn graffu gyffredinol

Diolch i chi am ddod i'n sesiwn dystiolaeth ar 6 Mehefin, ynghyd â'ch swyddogion, i drafod y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ac ar gyfer sesiwn graffu gyffredinol.

Yn ystod y sesiynau hynny, roedd nifer o feysydd y gwnaethoch gytuno i roi rhagor o wybodaeth yn eu cylch. Hefyd, mae gennym nifer o gwestiynau ychwanegol yr hoffem eu holi i chi. Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys yr holl faterion hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Rydych wedi cytuno i ddod yn ôl at y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf i drafod y Bil ymhellach. Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb i'r llythyr hwn cyn hynny, erbyn dydd Gwener 28 Mehefin, fel y gallwn ei ystyried yn llawn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad**

## Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

## Cyfyngu ar elw

**Ystyriaethau hawliau dynol**

1. Beth yw eich asesiad o'r ystyriaethau hawliau dynol mewn perthynas â'r Bil hwn, yn enwedig ynghylch a allai darpariaethau'r Bil sy'n cyfyngu ar y gallu i wneud elw gyffwrdd â'r hawliau o dan Erthygl 8, a'r hawl i fwynhad heddychlon o eiddo o dan Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol? A oes unrhyw hawliau eraill wedi cael eu hystyried?

**Yr egwyddor y tu ôl i ddeddfwriaeth**

2. Yn eich datganiad ar gyflwyno'r Bil, gwnaethoch chi ddweud mai'r man cychwyn ar gyfer y ddeddfwriaeth hon oedd yr egwyddor o beidio â gwneud elw o ofal pobl fregus. Ceir cyfeiriad hefyd fod barn plant a phobl ifanc ar elw yn sbardun allweddol i'r Bil. Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i ddileu elw gan staff asiantaethau gwaith cymdeithasol plant, o ystyried bod y ffigyrau diweddaraf yn awgrymu bod 17.5 y cant o weithwyr cymdeithasol plant yng Nghymru yn cael eu cyflogi gan asiantaeth.

**Taliad afresymol neu amhriodol**

3. Mae adran 6 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried, ymhlith materion eraill, a yw darparwr gwasanaeth plant cyfyngedig wedi ymrwymo i drefniant ariannol gyda pherson perthnasol sy'n afresymol neu'n anghymesur o dan yr holl amgylchiadau. Mae ymadroddion allweddol eraill yn y ddarpariaeth hon wedi cael ystyr benodol yn y Bil, ond ni roddir ystyr benodol i "afresymol neu anghymesur". Beth ydych chi'n ystyried fyddai'n gyfystyr â threfniant ariannol afresymol neu anghymesur at ddibenion y Bil, a pham eich bod wedi dewis peidio â diffinio'r term hwn ar wyneb y Bil?

**Pwerau gwneud rheoliadau**

4. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyfyngiadau ar elw yn cynnwys nifer o bwerau i wneud rheoliadau.

   a) Pam y defnyddiwyd y dull hwn yn hytrach na chynnwys mwy o wybodaeth ar wyneb y Bil, er enghraifft, pam na ellir roi diffiniad ar gyfer "budd cyhoeddus" ar wyneb y Bil?

   b) Mae Tabl 5.1 yn dweud bod y dull hwn yn caniatáu diogelu at y dyfodol. Yn eich barn chi, pa agweddau y gallai fod angen eu newid yn y dyfodol?

   c) Pam ydych chi wedi dewis cymhwyso'r weithdrefn negyddol i'r mwyafrif o'r pwerau rheoleiddio sy'n ymwneud â chyfyngiadau ar elw, gyda'r canlyniad bod y Senedd yn cael llai o gyfle i graffu arnynt?

   d) Sut wnaethoch chi benderfynu pa bwerau fyddai'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, a pham ydych chi wedi dewis cymhwyso gweithdrefn wahanol ar rai achlysuron i'r tro cyntaf y caiff pŵer ei arfer, yn hytrach nag unrhyw amser arall?

**Cyfeiriad at leoliadau anghofrestredig**

5. Mae adran 13 yn nodi’r ffyrdd y mae plant sy’n derbyn gofal i’w lletya a’u cynnal yn y “lleoliad mwyaf priodol”. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y gall lleoliad fod “mewn llety anghofrestredig (dros dro neu mewn achosion brys)”. Nid yw’r cyfeiriad hwn yn ymddangos yn Neddf 2014 nac ar wyneb y Bil hwn. Mae'r Bil yn defnyddio'r un derminoleg â'r diffiniad o leoliadau yn a81(6)(d) presennol, sy'n nodi y gellir gwneud lleoliad yn unol â threfniadau sy'n cydymffurfio â rheoliadau a wneir at ddibenion yr adran honno (Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 ar hyn o bryd). A allwch egluro beth sydd wedi newid, os o gwbl, mewn perthynas â lleoliadau anghofrestredig?

**Risgiau tanseilio arferion**

6. Beth ydych chi wedi'i nodi fel yr ystod lawn o risgiau a allai olygu bod nodau polisi'r Bil yn cael eu tanseilio gan arferion sy'n mynd yn groes i'w ysbryd a'i fwriad, megis codi ffioedd gormodol gan riant gwmnïau gwasanaethau nid-er-elw, a allai fod yn gyfystyr â chymryd elw trwy ddulliau eraill. Sut mae'r holl risgiau hyn wedi cael eu lliniaru yn y Bil?

**Comisiynu rhanbarthol/Cymru gyfan**

7. Asesiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o'r sefyllfa yng Nghymru yw nad oes angen gwaharddiad neu derfyn ar elw i ddarparu marchnad lleoliadau sy'n gweithredu'n dda. Maen nhw’n pwysleisio'r angen am gomisiynu gwell ac yn cyfeirio at gaffael cydweithredol sy’n digwydd yn genedlaethol, gan ddweud eu bod yn glir fod darnio gormodol yn y prosesau rhagweld, llunio’r farchnad a chaffael yn sbardun allweddol i ganlyniadau gwael yn y farchnad hon, ac felly mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn os ydym am weld gwelliant sylweddol yn y canlyniadau. Pa ystyriaeth y gwnaethoch ei rhoi i newid trefniadau presennol yr awdurdod lleol, a pham na wnaethoch chi ddilyn yr opsiwn o ragfynegi a chomisiynu rhanbarthol neu genedlaethol?

**Buddsoddiadau yn y Bil hyd yma**

8. Faint o leoliadau newydd 'nid-er-elw' sydd wedi'u creu hyd yma o ganlyniad i'r £68 miliwn a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru. Pa ganran y mae hyn yn ei gynrychioli yn yr angen a ragwelir am leoliadau? Beth fydd yr ymrwymiad ariannol blynyddol gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i ddatblygu'r ddarpariaeth nid-er-elw?

**Amrywiad rhanbarthol**

9. Beth yw'r ganran amcangyfrifedig o leoliadau'r sector preifat/lleoliadau nid-er-elw fesul awdurdod lleol yng Nghymru?

**Goblygiadau trawsffiniol i blant sy'n cael eu gosod o Loegr a'r Alban**

10. Faint o blant ydych chi'n amcangyfrif sy'n cael eu rhoi mewn lleoliadau preifat yng Nghymru gan awdurdodau lleol y tu allan i Gymru ar hyn o bryd? Sut ydych chi'n rhagweld y bydd eu hamgylchiadau yn cael eu cynnwys yn y trefniadau trosiannol yn y Bil?

**Dyddiad diwedd y cyfnod pontio**

11. Mae'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn caniatáu pennu dyddiad olaf y cyfnod pontio mewn rheoliadau. Beth yw'r ystod amcangyfrifedig o ddyddiadau yr ydych wedi'u hystyried a beth yw'r dyddiad hwyraf sy'n rhesymol i drefniadau pontio ddod i ben yn eich barn chi? A ydych wedi ystyried pennu'r diwedd ar wyneb y Bil gyda phwerau i ddiwygio hynny drwy reoleiddio fel modd o liniaru cyfnod pontio hir sy'n tanseilio nodau'r Bil?

**Cynllun digonolrwydd blynyddol**

12. Mae adran 11 yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol ar gyfer llety i blant sy'n derbyn gofal. A allwch amlinellu'r mathau o resymau pam y gallai Llywodraeth Cymru ragweld gwrthod cynllun digonolrwydd? Beth fydd yn digwydd os gwrthodir ail ddrafft cynllun digonolrwydd, a pham nad yw'r Bil yn nodi hyn?

**Llety sy'n 'agos' at yr awdurdod lleol**

13. Mae'r Bil yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol fel y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau llety, yn hytrach nag "o fewn" ardal awdurdod lleol y plentyn, "yn agos iddi". Mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu bod hwn yn ddull mwy pragmatig a fydd yn caniatáu ar gyfer lleoliadau ychydig dros ffin yr awdurdod lleol. Beth yw eich asesiad o'r canlyniadau anfwriadol posibl sy'n deillio o hyn, er enghraifft, os yw awdurdodau lleol o dan bwysau, gallai plant fod yn fwy tebygol o gael eu lleoli ymhellach oddi wrth ardal eu cartref oherwydd pa leoliadau sydd ar gael yn hytrach na'u 'budd gorau'.

**Lleoliadau atodol**

14. A allwch chi gadarnhau y bydd yn rhaid i leoliadau atodol fod y tu allan i Gymru ar ôl diwedd y cyfnod pontio, o gofio na all darparwyr nid-er-elw gofrestru yma yn gyfreithiol o dan ddarpariaethau'r Bil.

15. Mae adran 13(3) o'r Bil yn diwygio Deddf 2014 i fewnosod adran 81B newydd: Y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal: cais i gymeradwyo lleoliad atodol. Ai'r bwriad yw i'r swyddogaeth gymeradwyo a gwrthod lleoliadau atodol o dan yr adran newydd hon gael ei chyflawni'n uniongyrchol gan Weinidogion Cymru neu gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar eu rhan?

16. Beth fyddai'r weithdrefn ar gyfer gofyn am swyddogaeth lleoliad atodol yn achos argyfwng, er enghraifft, gofyniad byr-rybudd ar yr un diwrnod i osod plentyn? A yw hyn yn cael ei ddarparu yn y Bil?

17. Beth yw'r meini prawf i Weinidogion Cymru asesu / cymeradwyo / gwrthod cais awdurdod lleol ar gyfer "lleoliad atodol" (ac eithrio'r ddarpariaeth gyffredinol yn y Bil y byddai'n anghyson â phrif

ddyletswydd yr awdurdod lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal o dan adran 78 o Ddeddf 2014)?

18. Yn gysylltiedig â chwestiwn 17, mae tabl 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at reoliadau a gyhoeddir o dan adran 13(3) sy'n ymwneud â rhagnodi gwybodaeth arall i'w chynnwys mewn cais i leoliad atodol fod 'o natur weinyddol'. A allwch egluro na fyddent felly yn cynnwys unrhyw feini prawf ar gyfer cymeradwyo/gwrthod lleoliadau atodol.

19. Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi y gall lleoliad fod “mewn llety anghofrestredig (dros dro neu mewn achosion brys)”. Ni chyfeirir at hyn yn Neddf 2014 nac yn y Bil. A allwch chi egluro pam mae'r term hwn wedi'i nodi yn y Nodiadau Esboniadol?

## Taliadau uniongyrchol

20. Yn Lloegr, mae'r hyn sy'n cyfateb i daliadau uniongyrchol (Cyllidebau Iechyd Personol) wedi'u caniatáu ar gyfer gofal iechyd parhaus oedolion a phlant ers 2014. A allwch egluro pam mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ffocws yn y Bil hwn ar ofal iechyd parhaus oedolion yn unig, ac a oes bwriad i ehangu hyn i ofal parhaus plant yn y dyfodol?

21. Yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, cynigiwyd rhoi pŵer i fyrddau iechyd lleol roi cymorth mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, mae geiriad y Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y trefniadau y gall bwrdd iechyd lleol eu gwneud. Pam y gwnaethoch chi benderfynu peidio â rhoi’r pŵer i fyrddau iechyd lleol ar wyneb y Bil fel y cynigiwyd yn wreiddiol?

22. O ystyried y materion presennol gyda thaliadau uniongyrchol (y nifer lai o bobl sy’n eu cael, a diffyg cysondeb wrth gefnogi pobl), a oes dadl dros gryfhau'r darpariaethau cyfreithiol i ddarparu gwybodaeth a chyngor i hyrwyddo taliadau uniongyrchol, ac i ddarparu cymorth i helpu pobl i'w rheoli? Ymhellach, yn ystod ein cyfarfod, gwnaethoch gynnig darparu gwybodaeth ychwanegol am y nifer sy’n manteisio ar daliadau uniongyrchol mewn gofal cymdeithasol, gan gynnwys cymhellion/anghymhellion posibl i fyrddau iechyd hybu’r defnydd o daliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus. Byddem yn falch o gael hyn.

23. Sut ydych chi'n bwriadu codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am hawl newydd defnyddwyr gwasanaethau i gael taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus (bydd hwn yn opsiwn newydd sylweddol o ran gofal iechyd parhaus na fydd y cyhoedd yn ymwybodol ohono)?

24. Disgwylir y bydd nifer y bobl sy'n defnyddio gofal iechyd parhaus yn cynyddu os caniateir taliadau uniongyrchol (a bydd llai o bobl yn gwrthod asesiadau gofal iechyd parhaus). Sut ydych chi'n cefnogi gwasanaethau i baratoi ar gyfer y galw cynyddol hwn a’i reoli?

25. O ystyried y diffyg capasiti ym maes gofal cymdeithasol, a allai fod yn ganlyniad anfwriadol fod rhai teuluoedd yn teimlo dan bwysau i dderbyn taliadau uniongyrchol (ac mae aelodau'r teulu yn dod yn ofalwyr/cynorthwywyr) oherwydd diffyg gwasanaethau gofal sydd ar gael yn hytrach na gwneud hynny o ddewis?

26. Allwch chi esbonio mwy am yr arbedion rydych chi'n disgwyl eu gwneud a fydd yn gwneud iawn am y costau? O ble y daeth yr arbedion yn Lloegr a beth oedd yr amserlen ar gyfer eu gwireddu?

27. Yn ôl awdurdodau lleol, mae'r bar cymhwysedd ar gyfer mynediad at Ofal Iechyd Parhaus wedi parhau i gynyddu dros amser, gan olygu bod llai a llai o bobl yn cael mynediad. A allai'r dull hwn, sy'n ymddangos fel petai'n "gwarchod", fod yn rhwystr rhag cyflawni nodau'r Bil hwn (h.y. a oes risg y gwrthodir gofal iechyd parhaus ar gam i bobl yn dilyn asesiadau sy'n golygu na allant elwa o'r ddeddfwriaeth)?

28. Yn ôl paragraff 7.144 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r gost gyfartalog ar gyfer Cyllidebau Iechyd Personol yn Lloegr yn amrywio o £46,000 i £120,000, gyda chyfartaledd o £80,000. Mae'n nodi ei bod yn "debygol y bydd amrywiad tebyg rhwng pecynnau yng Nghymru". Fodd bynnag, rydych wedi defnyddio "cost enghreifftiol ar ben isaf y raddfa hon" ar gyfer gwariant a ragwelir gan y Bwrdd Iechyd Lleol ar daliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus. Pam hynny, o ystyried cymhlethdod tebygol yr achosion?

29. Er nad ydych yn defnyddio ystod cost gyfartalog Cyllidebau Iechyd Personol yn Lloegr, rydych wedi cymhwyso'r gostyngiad canrannol mewn costau a adroddwyd gan GIG Lloegr ar ôl iddynt gael eu cyflwyno: 11 y cant ar gyfer yr holl Gyllidebau Iechyd Personol a 16 y cant ar gyfer taliadau uniongyrchol Cyllidebau Iechyd Personol. Ym mha ddogfen y nododd GIG Lloegr y gostyngiadau hyn mewn costau, a pham ydych chi'n credu ei bod yn sail resymol ar gyfer lleihau alldro taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus y Bwrdd Iechyd Lleol?

30. Mae'n ymddangos eich bod wedi cymhwyso'r gostyngiad mewn costau a adroddwyd gan GIG Lloegr i gyrraedd cost net taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol. Pam nad yw'r gostyngiad hwn mewn costau yn cael ei adrodd fel budd posibl i'r Bil, fel rydych chi wedi'i wneud i'r rhai sy'n cael Gofal Iechyd Parhaus eisoes sy'n trosglwyddo i daliadau uniongyrchol a phecynnau Gofal Iechyd Parhaus newydd sy'n cael eu darparu drwy daliadau uniongyrchol?

## Darpariaethau gofal cymdeithasol eraill

31. Mae adran 18 o'r Bil yn ychwanegu gweithwyr gofal plant at ddiffiniad 'gweithiwr gofal cymdeithasol'. Yn yr ymgynghoriad gwreiddiol, cynigiwyd hefyd ychwanegu gweithwyr chwarae, i "egluro'r rôl statudol y mae GCC yn ei chwarae" ar gyfer pob gweithiwr gofal plant a chwarae. Beth yw'r rhesymeg dros beidio â chynnwys gweithwyr chwarae yn y Bil fel y'i drafftiwyd?

32. Mae’r Bil yn gwneud diwygiadau i’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r Pwyllgor hwn eisoes wedi clywed tystiolaeth am hepgor Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ar wyneb y Ddeddf, yn wahanol i hawliau'r plentyn ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn. A fyddai Llywodraeth Cymru yn fodlon manteisio ar y cyfle hwn i gywiro hyn, er mwyn sicrhau bod hawliau pobl anabl yn cael yr un amlygrwydd yn y ddeddfwriaeth?

## Camau dilynol o’r sesiwn graffu gyffredinol

Yn ystod y sesiwn graffu gyffredinol yn syth ar ôl y sesiwn ar y Bil, gwnaethoch gytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda’r wybodaeth ganlynol:

33. Cadarnhau nifer y swyddi gwag ar hyn o bryd ar draws gofal cymdeithasol, gan gynnwys y ganran gyfatebol o'r gweithlu y mae'r rhif hwnnw yn ei gynrychioli.
34. Rhoi diweddariad ar y gwaith sy’n cael ei wneud i gefnogi gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

31 Mai 2024

Annwyl Peredur

**Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)**

Diolch am y llythyr gan y Pwyllgor Cyllid, dyddiedig 16 Mai 2024, mewn perthynas â goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).

Rwy'n falch bod y Pwyllgor Cyllid yn fodlon yn gyffredinol â goblygiadau ariannol y Bil, fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA), ac rwy'n croesawu cydnabyddiaeth y Pwyllgor o'r gydberthynas rhwng y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Er nad oedd y costau ychwanegol, a nodwyd mewn perthynas â'r staff a ddefnyddir gan y Comisiwn Etholiadol i baratoi ar gyfer gweithredu'r diwygiadau, wedi cael eu nodi pan ddatblygwyd yr Asesiad ar gyfer Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), byddaf yn sicrhau bod yr Asesiad yn cael ei adolygu ar yr adeg briodol, yn unol â gweithdrefnau sefydledig. Wrth adolygu'r Asesiad yn ystod taith y Bil, byddwn hefyd yn adlewyrchu unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dirprwy Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol, pe bai gofyniad o'r fath yn cael ei gytuno, ac unrhyw gostau ychwanegol eraill a allai godi o ddiwygiadau i'r Bil.

Er bod y Pwyllgor yn cydnabod nad yw'n arferiad rheolaidd rhagweld costau sy'n gysylltiedig â heriau cyfreithiol posibl yn y dyfodol, byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am unrhyw oblygiadau cost pe bai'r Bil yn cael ei gyfeirio at y Goruchaf Lys ar gyfer penderfynu ar fater cymhwysedd. Rwyf hefyd yn ymrwymo i gyhoeddi Asesiad llawn a manwl sy'n ymwneud â'r is-ddeddfwriaeth.

O ran ein hymgysylltiad â phleidiau gwleidyddol, mae fy swyddogion wedi ymgysylltu â'r pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd ar hyn o bryd, yn ystod datblygiad y Bil ac yng nghyd-destun newidiadau ehangach sy'n cael eu gweithredu drwy Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Rwy'n ddiolchgar i'r Comisiwn Etholiadol am hwyluso'r gweithgarwch ymgysylltu hwn. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i sut y gallwn weithio gyda phleidiau gwleidyddol (y rhai sy'n cael eu cynrychioli ar hyn o bryd a phleidiau nad ydynt yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cael eu cynrychioli yn y Senedd) i asesu ymhellach sut y gallai'r ddeddfwriaeth effeithio arnynt o ran costau.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar y Bil a'i ddogfennaeth ategol, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy broses y Senedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a phob Aelod o'r Senedd er gwybodaeth.

Yr eiddoch yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Trefnydd a'r Prif Chwip
Trefnydd and Chief Whip

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Trefnydd and Chief Whip**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

14 Mehefin 2024

Annwyl David, Mike a Peredur,

**Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Biliau Diwygio a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am eu hadroddiadau ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ("y Bil"), a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Pwyllgor Cyllid am ei lythyr dyddiedig 16 Mai ynghylch goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth. Atebais y llythyr hwnnw ar 31 Mai.

Mae adroddiadau'r ddau bwyllgor yn gwneud cyfanswm o 47 o argymhellion. Rwy'n ddiolchgar i'r ddau ohonynt am eu hystyriaeth fanwl o'r Bil yn ystod Cyfnod 1, gan gynnwys y drafodaeth werthfawr a gafwyd gydag arbenigwyr academaidd a chyfreithiol, rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd. Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch am y cyfraniadau a wnaed i'r pwyllgorau fel rhan o'u gwaith craffu Cyfnod 1. Rwyf wedi dilyn, gyda diddordeb brwd, y ddadl gyfoethog yn ystod Cyfnod 1 y ddeddfwriaeth ar ei thaith drwy'r Senedd, ac rwy'n falch bod y Pwyllgor Biliau Diwygio wedi dod i'r casgliad bod y Bil yn "gam tuag at sicrhau cynrychiolaeth gwbl amrywiol...yn y Senedd". Nodaf fod y pwyllgor yn argymell, drwy fwyafrif, fod y Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil ac yn cydnabod bod y model cwota arfaethedig yn adlewyrchu'n fras arferion gorau rhyngwladol a'i fod yn addas i'r diben yma yng Nghymru.

O fewn y cyd-destun hwn o gefnogaeth eang i ddibenion y Bil, nodaf hefyd fod adroddiadau'r ddau bwyllgor yn gwneud nifer o argymhellion pwysig y mae angen i Lywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach. Mae'r adroddiadau'n bwrw golwg ar yr ystod o safbwyntiau a fynegwyd, yn ystod Cyfnod 1, o ran cymhwysedd deddfwriaethol ac mae nifer o argymhellion i gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU. Mae argymhellion hefyd yn y ddau adroddiad o ran y risg bosibl i'r broses o gynnal etholiad cyffredin y Senedd yn 2026 sy'n gysylltiedig â gweithredu'r ddeddfwriaeth mewn pryd ar gyfer yr etholiad hwnnw. Yn ogystal, mae'r ddau bwyllgor yn galw am ragor o fanylion yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ynghylch sut y byddai'r darpariaethau'n gweithio'n ymarferol ac yn nodi mesurau eraill y gellir eu hystyried i gael gwared ar y rhwystrau posibl sy'n atal mwy o fenywod rhag cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn benodol, nodaf bryderon y pwyllgorau ynghylch tarfu posibl ar ganlyniad etholiad y Senedd yn 2026 pe baem yn ceisio gweithredu'r darpariaethau yn y Bil hwn mewn pryd ar gyfer yr etholiad hwnnw, ac ochr yn ochr â'r mesurau ehangach i ddiwygio'r Senedd. Rwy'n ymwybodol bod rhai o'r rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth yn ystod y broses graffu Cyfnod 1 wedi lleisio pryderon tebyg. Er fy mod wedi nodi yn ystod y broses honno y camau rydym yn eu cymryd i liniaru'r risg o darfu ar etholiad y Senedd yn 2026 a gweithredu'r diwygiadau ehangach, rwy'n cymryd y pryderon hyn o ddifrif. Felly, byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i p'un a allai'r etholiad yn 2030 fod yn amserlen fwy doeth ar gyfer gweithredu, o dan yr amgylchiadau.

Pan gyflwynwyd y Bil, a thrwy gydol gwaith craffu Cyfnod 1, dywedais yn glir y byddai barn y pwyllgorau yn rhan ganolog o'n hystyriaeth o'r camau nesaf ynglŷn â'r Bil. Ar ôl darllen yr adroddiadau, rwyf o'r farn ei bod yn hanfodol ein bod yn rhoi ystyriaeth briodol iddynt, er mwyn gallu ymateb mor llawn a phriodol â phosibl cyn y ddadl Cyfnod 1.

Er mwyn caniatáu inni wneud hyn, rwyf wedi penderfynu gohirio dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil tan 16 Gorffennaf 2024.


Rwy'n ymwybodol bod hyn yn golygu y bydd angen inni weithio gyda'r Pwyllgor Busnes i gytuno ar amserlen ddiwygiedig ar gyfer y ddeddfwriaeth, a byddaf yn ceisio gwneud hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol i roi eglurder ar y camau nesaf i bawb.

Hoffwn ddiolch i'r pwyllgorau am graffu ar y Bil a'i ddogfennau ategol. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r pwyllgorau a'r Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy broses y Senedd.

Rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo i wneud y Senedd yn fwy effeithiol drwy ei gwneud yn fwy cynrychioliadol o gyfansoddiad poblogaeth Cymru o ran rhywedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd er gwybodaeth.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Trefnydd a'r Prif Chwip
Trefnydd and Chief Whip

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet

7 Mehefin 2024

Annwyl Rebecca,

**Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022: Adran 6 (Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon)**

Yn dilyn eich llythyr cychwynnol atom ar 6 Mawrth, y gwnaethom ymateb iddo ar 19 Mawrth, hoffwn ddiolch i chi am eich llythyr diweddaraf dyddiedig 19 Ebrill, a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 29 Ebrill, 7 Mai a 3 Mehefin, ac yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 1 Mai.

Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru o ran adolygu Deddf 2022.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ansicr ynghylch yr hyn y gofynnir i'n pwyllgorau priodol ei wneud. Mae'n ymddangos bod eich llythyr yn rhagweld rôl datblygu polisi lle y byddai ein cyfraniad ni yn canolbwyntio'n benodol ar fecanweithiau deddfwriaethol amgen y gellir eu hystyried yn ystod yr adolygiad statudol o Ddeddf 2022.

Yn ein barn ni, byddai rôl o'r fath yn creu dryswch o ran y ffin rhwng swyddogaethau'r ddeddfwrfa a swyddogaethau'r weithrediaeth, ac felly ni fyddai'n briodol.

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am yr adolygiad statudol o Ddeddf 2022, yn unol ag Adran 6(1) o Ddeddf 2022. O'r herwydd, y man cychwyn naturiol ar gyfer unrhyw adolygiad fyddai i Lywodraeth Cymru lunio ei chynigion ei hun, neu ddarparu ystod o opsiynau o ran sut y dylid cynnal yr adolygiad.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn ein barn ni, dylai ein rolau ni ganolbwyntio ar graffu ar eich cynigion chi yn unol â'n priod gylchoedd gorchwyl a gwneud argymhellion lle bo hynny'n briodol.

Wrth gwrs, byddem yn croesawu cael ein hymgynghori o ran eich cynigion yn unol ag adran 6(3) o Ddeddf 2022. Byddem yn cymryd diddordeb arbennig yn eich asesiad, fel sy'n ofynnol o dan adran 6(2) o Ddeddf 2022, o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r Deddfau hynny.

Ar y pwynt olaf hwnnw, cytunodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei gyfarfod ar 7 Mai i dynnu eich sylw at y safbwyntiau a nodwyd ym mhennod 3 o'i Adroddiad ar Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pwer i Addasu); yn benodol, byddwch yn ymwybodol bod yr ail gasgliad yn dadlau o blaid defnyddio deddfwriaeth sylfaenol i ddiwygio Deddfau Trethi Cymru a dyna farn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad o hyd.

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cyllid wedi bod yn dweud ers tro y dylid rhoi ystyriaeth i ddatblygu proses gyllidebol sy'n addas i ddeddfwrfa fodern, sy'n cynnwys asesu manteision proses cyllideb ddeddfwriaethol neu fil cyllid wrth i drethi Cymru ddatblygu. Rydym yn deall y bydd y gwaith hwn yn parhau ochr yn ochr ag unrhyw adolygiad o Ddeddf 2022 ac rydym yn croesawu eich ymgysylltiad parhaus ar y materion ehangach hynny.

Fodd bynnag, barn y Pwyllgor Cyllid yw na ddylai unrhyw drafodaethau sy'n ymwneud â'r adolygiad o Ddeddf 2022 fynd rhagddynt hyd nes y bydd ystod o opsiynau wedi'u cyflwyno, ac mae'n gofyn am i'r wybodaeth hon gael ei darparu cyn trefnu unrhyw sesiynau paratoadol cyn dechrau'r broses ymgynghori ffurfiol.

Yn gywir

Mike Hedges
Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd

Y Pwyllgor Cyllid

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Cardiff / Caerdydd
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

Mr Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Y Senedd
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN

**Cyfeirnod:** KC24002/AC414/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 15 Ebrill 2024

Annwyl Peredur

## Newidiadau i'r Protocol Proses Cyllideb

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Hydref 2024.

Fel y crybwyllasoch, nid oes angen ailddatgan y safbwyntiau yr ydym eisoes wedi'u cyfleu yn ein hymateb i'r adolygiad o'r Datganiad Egwyddorion, ni fyddwn yn ailadrodd cynnwys ein llythyr atoch ar 20 Rhagfyr 2023 felly.. Fodd bynnag, er mwyn osgoi amheuaeth, y farn a fynegir yn y llythyr hwnnw yw ein barn o hyd.

O ran y newidiadau arfaethedig i'r Protocol, dim ond ychydig o sylwadau sydd gennym, sy'n faterion eglurder yn bennaf:

1. Mae paragraff 17 o'r Protocol yn dweud—

   *"Gyda hyn mewn golwg, byddai'r Pwyllgor Cyllid yn rhagweld gweld ar yr adeg y cyhoeddir y gyllideb amlinellol... dangosiad o sut mae'r rhaglen ar gyfer Deddf Llywodraeth a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb."*

   Gan mai'r ddyletswydd i osod amcanion llesiant yw'r prif fecanwaith o fewn Deddf 2015 ar gyfer rhoi egwyddorion ar waith, a chan nad yw'r Rhaglen Lywodraethu ei hun yn ofyniad statudol *fel y cyfryw*, credwn y byddai'n ddefnyddiol diwygio'r

paragraff hwn er mwyn cyfeirio at esboniad o sut mae amcanion llesiant Llywodraeth Cymru wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.

2. Yn yr un modd, credwn y byddai cyfeiriad at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol ym mharagraff 21.

3. Ym mharagraff 33, gallai fod yn ddefnyddiol i eglurder adolygu'r frawddeg olaf i gyfeirio'n benodol at Lywodraeth Cymru gan ddarparu cymodi â newidiadau ar lefel BEL.

4. Er bod y newidiadau i baragraff 40 yn ymddangos yn ddefnyddiol, yn enwedig amnewid "ymgymeriadau felly i barhau" gydag "ewyllys" yn y frawddeg olaf ond un, ymddengys bod y croesgyfeiriad yn y frawddeg flaenorol yn fwy priodol pe bai'n cael ei rhoi fel paragraff 34 yn hytrach na pharagraff 26. Yn yr un modd, byddai'n ymddangos bod "arian uniongyrchol" yn y frawddeg olaf ond ond un yn well fel un "wedi'i hariannu'n uniongyrchol".

Rwy'n gobeithio bod hynny'n ddefnyddiol. Byddem yn hapus i drafod ymhellach.

Yn gywir





**KATE CHAMBERLAIN**
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Drwy'r e-bost

30 Ebrill 2024

Annwyl Peredur

Newidiadau posibl i Brotocol Proses y Gyllideb: Ymgynghori â Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Chwefror 2024 a'r cyfle i roi sylwadau ar Brotocol presennol Llywodraeth Cymru. Rwy'n nodi hefyd fanylion y llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2023 a anfonodd y Pwyllgor at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

Rydym yn falch o nodi bod y materion a godwyd gan Gomisiwn y Senedd wedi cael eu hystyried.

Mae Comisiwn y Senedd yn parhau i bryderu am ddwy agwedd ar y Protocol, gan gyfeirio'n benodol at y broses o wneud cais am Gyllideb Atodol, sef:

- Amseriad y ceisiadau - caiff y rhain eu pennu'n ôl anghenion ariannol proses gyllidebol y Llywodraeth heb ystyried yn llawn ofynion ariannol y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol. O ystyried eu maint, gall amser fod yn hollbwysig iddynt. Heb rywfaint o hyblygrwydd o ran pryd y gellir bwrw ymlaen â cheisiadau o'r fath, mae'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn parhau i fod mewn perygl o orfod lleihau eu gwasanaethau er mwyn talu costau annisgwyl yn ystod y flwyddyn.

- Hoffai'r Comisiwn weld mwy o eglurder ynghylch y prosesau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am gyllideb atodol gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, a phroses graffu'r Pwyllgor ac i'w argymhelliad o ganlyniad i'r gwaith craffu hwnnw gael ei nodi fel rhan o broses Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno cais am Gyllideb Atodol. Byddem hefyd yn argymell bod proses o'r fath hefyd yn cynnwys rhoi gwybod i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol am amserlen y Gyllideb Atodol bob blwyddyn, a hynny'n gynnar yn y flwyddyn ariannol at ddibenion amserlennu gwaith.

Nodwn ein bod wedi ysgrifennu at y Pwyllgor yn barod ynghylch y mater hwn a'ch bod wedi gofyn i'r ymatebion beidio ag ailadrodd cynnwys ymateb a gyflwynwyd yn flaenorol. Yn syml iawn, felly, hoffem nodi eto y gallai fod yn ddefnyddiol diwygio'r Rheolau Sefydlog i ffurfioli'r broses o gyflwyno cynnig am gyllideb atodol yn hytrach na Phrotocol y Gyllideb ei hun. Rydym yn parhau i

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

fod o’r farn y bydd hyn yn creu proses fwy cadarn ac yn cynnal annibyniaeth y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

Gobeithio y bydd y sylwadau hyn o gymorth i’r Pwyllgor wrth iddo drafod sut i ymdrin â’r materion hyn.

Yn gywir

Y Llywydd

Copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Kate Innes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

1 Mai 2024

Annwyl Peredur,

**Craffu ar y Gyllideb Ddrafft**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mawrth yn holi am farn ar y dogfennau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Cafodd hyn ei drafod gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill a hoffai gynnig y sylwadau a ganlyn:

- Mae'n hanfodol bod tystiolaeth yn cael ei darparu mewn modd amserol a hoffai'r Aelodau dynnu sylw at yr angen i'r Llywodraeth lynu at yr amseroedd a nodir ym mhotocol y gyllideb;
- Roedd y wybodaeth a rannwyd yn y cylch cyllidebol hwn (Cyllideb Ddrafft 2024-25) yn ddefnyddiol. Nodwyd rhai bylchau ynghylch canlyniadau penodol, e.e. ar y Cynllun Gweithredu Allforio, lle byddai rhagor o fanylder wedi bod yn ddefnyddiol. Yn gyffredinol fodd bynnag, mae angen cymaint o wybodaeth benodol â phosibl ar Bwyllgorau er mwyn gallu deall a thrafod y gyllideb ddrafft yn drylwyr;
- Roedd y naratif a rannwyd gyda thablau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ac ar raglenni unigol yn ddefnyddiol, ynghyd â diweddariadau ar faterion cyfredol, e.e. ar gostau'n ymwneud â Safleoedd Rheolaethau'r Ffin a rhoi Model Gweithredu Targed y Ffin ar waith. Hoffai'r Pwyllgor weld hyn yn cael ei ddarparu mewn cylchoedd craffu ar y gyllideb yn y dyfodol ac os darperir rhagor o fanylion ar bob BEL byddai Aelodau hefyd yn gwerthfawrogi esboniadau naratif pellach i gyd-fynd â'r manylion hynny;



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Mae'r Pwyllgor yn defnyddio ei sesiynau craffu rheolaidd gyda Gweinidogion i ymdrin â materion cyllidebol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cyn Cyllideb Ddrafft nesaf 2025-26 Llywodraeth Cymru, byddwn yn ysgrifennu at yr Ysgrifenyddion Cabinet i'w holi ynghylch cynnydd yn erbyn argymhellion adroddiad y Pwyllgor y llynedd fel rhan o'r broses graffu ar y gyllideb; a

- Bydd y Pwyllgor hefyd yn tynnu sylw ein rhanddeiliaid yn fwy clir tuag at ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid. Cafwyd ymatebion defnyddiol iawn gan nifer fach o randdeiliaid allweddol y Pwyllgor, ond rydym am annog rhagor o ymgysylltiad gan ein holl randdeiliaid gyda'r broses ymgynghori gydlynol honno.

Gyda'i gilydd, dylai'r holl elfennau hyn gynorthwyo i lywio a gwella gwaith craffu ar y gyllideb yn y dyfodol.

Gobeithio y bydd yr ymateb hwn o gymorth i'ch Pwyllgor.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

9 Mai 2024

Annwyl Peredur,

Craffu ar y gyllideb ddrafft

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mawrth 2024 parthed gwaith craffu pwyllgorau'r Senedd ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried eich llythyr ar 15 Ebrill 2024, a chytunwyd i wneud rhai sylwadau a allai fod yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor eu hystyried.

Yn eich llythyr, rydych yn cyfeirio at ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i chyllidebau drafft. Rhwystr penodol yr ydym wedi dod ar ei draws fel rhan o'n gwaith craffu yw'r ffaith nad yw gwariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder wedi'i ddadgyfuno o fewn unrhyw un o'r cyllidebau drafft yr ydym wedi'u hystyried. Mae hyn wedi cyfyngu ar ein gallu i nodi newidiadau mewn gwariant arfaethedig ar weithgarwch o'r fath, ac rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i weithio tuag at ddadgyfuno'r gwariant hwn yng nghyllidebau'r dyfodol.

Rydym wedi nodi ymdrechion Llywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd allai wella lefel y manylion y mae'n eu darparu ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn ei chyllidebau drafft (gweler yr ymrwymiad a roddwyd ym mis Rhagfyr 2022 a'r dystiolaeth a roddwyd ym mis Chwefror eleni). At hynny, rydym wedi cydnabod yr anawsterau y mae'n eu hwynebu wrth gyflwyno'r wybodaeth hon yn absenoldeb unrhyw un o aelodau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â chyfiawnder, a phrif grŵp gwariant penodedig ar gyfer y materion hynny. Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru ar y materion hyn yn ôl yr angen.

Mae'n bwysig nodi bod ein hystyriaeth o gyllidebau drafft blaenorol hefyd wedi bod yn heriol, oherwydd bod dau aelod o Lywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â chyfiawnder: y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ar y pryd, a'r Gweinidog Cyfiawnder

Cymdeithasol a'r Prif Chwip, ar y pryd. Mae'r cyfrifoldeb am faterion o'r fath bellach yn nwylo tri aelod o Lywodraeth Cymru – Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Cwnsler Cyffredinol.

Mae effaith y trefniant newydd hwn ar ein hystyriaeth o gyllidebau drafft a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn aneglur. Fodd bynnag, ein sylw cychwynnol yw y gallai hynny lesteirio unrhyw ymdrechion a wneir gan Lywodraeth Cymru i wella lefel y manylder y gall ei darparu ar wariant arfaethedig, ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder, ac yn sgil hynny gallai lesteirio gallu'r Pwyllgor i gynnal gwaith craffu ar wariant o'r fath. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio addasu i'r trefniant newydd a allai, er enghraifft, gynnwys cynnal gwaith craffu ar agweddau ar y gyllideb ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, lle bo hynny'n briodol a phan fo amser yn caniatáu.

O ran prosesau'r gyllideb yn fwy cyffredinol, rydym yn croesawu'r ymgynghori a'r ymgysylltu a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cyllid. Defnyddiwyd y dystiolaeth a gasglwyd gennym i lywio ein gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft a pharatoi ein hadroddiad terfynol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at sylw Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



Sarah Murphy
Cadeirydd

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

17 Mai 2024

## Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25: Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

Annwyl Peredur,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mawrth 2024, ac am y cyfle i roi sylwadau ar ein profiad o broses y Gyllideb Ddrafft 2024-25. Buom yn trafod eich llythyr yn ein cyfarfod ar 17 Ebrill 2024 a hoffem gynnig y safbwyntiau a ganlyn.

### Ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd

**1.** Yn gyffredinol, roedd papurau'r Gyllideb Ddrafft a gawsom yn ymwneud â'r Gymraeg, a meysydd polisi'r Celfyddydau, Chwaraeon a Diwylliant yn glir, yn gynhwysfawr ac yn gadarn o ran darparu'r wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani. Mae angen i Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, gynnwys gwybodaeth yn ei naratif ar y gyllideb a'i dogfennau o ran sut mae gwariant ar draws portffolios eraill y Llywodraeth yn cyfrannu at feysydd polisi sy'n rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor. Dylai hyn fod yn glir o ran y gyllideb, y canlyniadau a'r mesurau a nodir. Er enghraifft, cydnabu Gweinidog y Gymraeg ac Addysg mewn tystiolaeth lafar fod targed Cymraeg 2050 yn fenter trawslywodraethol. Er gwaethaf hyn, nid oedd yn bosibl nodi o'r dystiolaeth ysgrifenedig effaith ehangach y toriadau yn y gyllideb mewn adrannau eraill o'r llywodraeth ar ddatblygu polisi ac ymyriadau o ran y Gymraeg.

**2.** Ar y llaw arall, roedd ein profiad o bapurau Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r maes polisi Cysylltiadau Rhyngwladol yn hynod siomedig. Gwelsom ddiffyg eglurder a thryloywder yn y dogfennau a thystiolaeth ysgrifenedig gweinidogol a ddarparwyd. Effeithiodd hyn ar ein gallu i graffu'n effeithiol ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol.

**3.** Nodwyd nifer o broblemau. Roedd y rhagolwg o’r alldro ar gyfer 2023-24 yn cynnwys swm ar gyfer arbedion yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw esboniad o ble y daeth yr arbedion ac a fu unrhyw weithgareddau, canlyniadau neu allbynnau nas cyflawnwyd o ganlyniad. Nid oedd trosglwyddiad cyllid MEG i MEG a amlinellwyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig ategol yn ymddangos ar gynnig y Gyllideb Ddrafft naill ai fel trosglwyddiad sy'n mynd allan neu'n dod i mewn. Yn anffodus, fe wnaethom ganfod yn ddiweddarach bod y Llinell Wariant yn y Gyllideb cysylltiedig hefyd wedi'i ailenwi heb esboniad. Nid oeddem yn gallu cysoni’r gwariant a ddyrannwyd yn llawn ar gyfer gweithgarwch y cyfeiriwyd ato yn y dystiolaeth ysgrifenedig ategol gan nad oedd bob amser yn cael ei briodoli'n glir i Linell Wariant yn y Gyllideb. Ymhellach, nid oedd yn bosibl cysoni’r cyfrifiad o gyfanswm y gwariant a ddyrannwyd a nodir yn y dystiolaeth ysgrifenedig â chynnig y Gyllideb Ddrafft heb greu gorwariant sylweddol. O ystyried yr angen am eglurhad o'r materion hyn, roedd yn anffodus bod y Prif Weinidog wedi gwrthod ein gwahoddiad i roi tystiolaeth lafar. Oherwydd hyn bu’n rhaid i ni wneud cais ysgrifenedig brys am ragor o wybodaeth.

**4.** Roedd ail gyflwyniad ysgrifenedig y Prif Weinidog hefyd yn gadael cwestiynau heb eu hateb a oedd, unwaith eto, wedi rhwystro ein gwaith craffu ar wariant Cysylltiadau Rhyngwladol. Er bod ffigurau wedi’u darparu y gellid eu cysoni â chynnig y Gyllideb Ddrafft, ni chawsom esboniadau boddhaol, na'r wybodaeth fanwl y gwnaethom ofyn amdani. Rhwng y cyflwyniad ysgrifenedig cyntaf a'r ail, cafodd y ffigur ar gyfer y gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol ei ddiwygio i lawr. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw ddadansoddiad diwygiedig. Gan hynny, nid oeddem yn gallu canfod lle y byddai’r toriadau yn y gyllideb yn disgyn. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, ni roddwyd cyfrif boddhaol am y trosglwyddiad MEG i MEG coll ac mae'r diffyg tryloywder hwn yn parhau i fod yn destun pryder.

**5.** Er mwyn inni allu craffu’n effeithiol, mae'n hanfodol ein bod yn gallu deall, dadansoddi a dibynnu ar y wybodaeth a gyflwynir inni. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom yn sylweddol is na safon dderbyniol. Roedd yr anghysondebau a nodwyd yn ein hatal rhag ystyried gwybodaeth yn hyderus ac yn rhwystr i'n dealltwriaeth o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

### Cyhoeddi adroddiadau blynyddol

**6.** Eleni, mae proses y Gyllideb Ddrafft hefyd wedi'i llesteirio gan oedi gydag Archwilio Cymru. O ganlyniad, ni chyhoeddwyd adroddiadau blynyddol a chyfrifon yn ymwneud â'r cyrff hyd braich sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor mewn pryd i lywio'r gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft. Er mwyn gwrthweithio hyn, gwnaethom gynnal sesiynau craffu cyffredinol gyda'r cyrff hyn yn ystod tymor yr Hydref. Caniataodd hyn inni ymgorffori barn rhanddeiliaid a

chael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar y meysydd polisi allweddol cyn y Gyllideb Ddrafft.

**Adolygu Protocol Proses y Gyllideb**

**7.** Fel y gwyddoch, mae’r amser sydd ar gael ar gyfer adrodd ar y cynigion amlinellol a manwl ar gyfer y gyllideb gan bwyllgorau wedi cael ei gyfyngu’n ddifrifol o ganlyniad i gyhoeddiad hwyr y Gyllideb Ddrafft yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r amserlenni byrrach hyn yn tanseilio ein gallu i graffu'n ystyrlon ar effaith y Gyllideb Ddrafft ar y meysydd polisi o fewn ein cylch gorchwyl. Yn ein barn ni, mae angen ailedrych ar frys ar Brotocol Proses y Gyllideb y cytunwyd arno yn 2017 (“y Protocol”). Efallai y bydd hyn yn gofyn am ail-lunio’r Protocol yn sylfaenol er mwyn galluogi amserlen adrodd hirach. Mae’r Protocol yn rhagweld y bydd Cyllideb y DU fel arfer yn cael ei chyhoeddi ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chynigion amlinellol a manwl ar gyfer y gyllideb. Fodd bynnag, nid felly y bu ers sawl blwyddyn. Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod yr amserlenni gofynnol lleiaf posibl a nodir ar gyfer craffu ar y gyllideb yn fusnes arferol pan mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai’r rhain fod yn berthnasol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i beidio ag ystyried ei bod yn gaeth i Lywodraeth y DU ac i fwrw ymlaen â gosod y gyllideb er mwyn galluogi a sicrhau uniondeb proses graffu Senedd Cymru.

**8.** Gobeithio y bydd y sylwadau hyn ar ein profiad o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru yn fuddiol o ran sbarduno newidiadau er gwell yn y dyfodol.

Yn gywir



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

—

**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

22 Mai 2024

Annwyl Peredur

Craffu ar y Gyllideb Ddrafft

Diolch am eich llythyr ynghylch y dogfennau a luniwyd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Trafodwyd y llythyr yn ein cyfarfod ar 18 Ebrill 2024.

Nodwn eich bod wedi ystyried y mater hwn y llynedd a hoffem ailadrodd y prif bryder a godwyd gennym ar y pryd, sef amseroldeb y dogfennau a ddarparwyd.

Rydym yn cydnabod bod y Gyllideb Ddrafft, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn cael ei chyhoeddi yn agos iawn at ddiwedd tymor yr hydref. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod papurau tystiolaeth y Gweinidogion yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd neu'n union ar ôl cyhoeddi'r gyllideb. Yn achos Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio, gallai hyn fod yn syth ar ôl y setliad llywodraeth leol dros dro y diwrnod ar ôl y Gyllideb Ddrafft. Rydym yn cydnabod yr heriau y gallai hyn eu peri i Lywodraeth Cymru, ond fel y nodwyd gennym y llynedd, teimlwn fod yr amserlenni tyn yn ei gwneud hi'n anodd asesu'n ystyron effaith y Gyllideb Ddrafft ar y meysydd polisi yn ein cylch gwaith.

Mewn perthynas â thrydydd pwynt bwled eich llythyr, byddwn yn nodi bod ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn rhoi cyfle allweddol clir i ni i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'u herio. Er hynny, rydym yn parhau i fod yn ystyriol o'r Gyllideb a'i goblygiadau i'r meysydd polisi yn ein cylch gwaith yn ein hymchwiliadau drwy gydol y flwyddyn. Byddwn wrth gwrs yn parhau i fanteisio ar bob cyfle perthnasol i godi materion cyllidebol gyda Llywodraeth Cymru.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Gobeithio y bydd yr uchod yn ddefnyddiol i'ch gwaith pwysig yn y maes hwn.

Yn gywir,

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

3 Mehefin 2024

Annwyl Peredur,

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Diolch am ein gwahodd ni i rannu safbwyntiau ar broses y Gyllideb Ddrafft.

Ar lefel ymarferol, er ein bod yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ddarparu ei thystiolaeth ysgrifenedig mewn modd amserol, mae ein prif bryderon ynglŷn â'i chynnwys wedi'u nodi yn ein hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi mai'r oedi yng Nghyllideb y DU oedd yn gyfrifol am amseriad y Gyllideb Ddrafft ond, yn y bôn, nid oes digon o amser i ganiatáu gwaith craffu effeithiol gan bwyllgorau'r Senedd.

Ein barn ni yw bod angen i'r effaith ar gydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a llesiant cenedlaethau'r dyfodol gael ei hystyried yn llawer mwy trwyadl gan Weinidogion wrth wneud penderfyniadau cyllidebol. Bob blwyddyn, mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi methu â chynnig y manylion y credwn sy'n angenrheidiol i gyfiawnhau penderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru.

Gwelliannau

Hoffai'r Pwyllgor weld nifer o welliannau gan gynnwys:

- Mwy o eglurder a thryloywder o ran y methodolegau a ddefnyddir wrth benderfynu ar ddyraniadau a'r rhesymau y tu ôl i benderfyniadau gwariant;
- Gwell defnydd o ddata gan gynnwys darparu dadansoddiad trylwyr o effaith penderfyniadau gwariant yn enwedig mewn perthynas â grwpiau demograffig gwahanol;
- Darparu crynodeb o adborth ac argymhellion gan randdeiliaid a grwpiau cynghori. Byddai hyn yn dangos sut mae safbwyntiau eisoes wedi'u hymgorffori yn y broses asesu, ac os nad ydynt, pam na fu hyn yn bosibl; a
- Darparu cynllun clir ar gyfer gwerthuso a monitro'r effeithiau dros amser.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Yr ystyriaeth a roddir i faterion cyllidebol trwy gydol y flwyddyn

Ym mis Mehefin, bydd y Pwyllgor yn cynnal gwaith craffu cyffredinol ar Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, ac mae'n bwriadu ystyried yr argymhellion a wnaed mewn ymchwiliadau blaenorol gan gynnwys argymhellion y Gyllideb Ddrafft. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried ysgrifennu at Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion yn dilyn ad-drefnu'r cabinet, yn gofyn iddynt sut y bwriedir i'w blaenoriaethau gyfrannu at ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn eu portffolios priodol. Mae'r trefniadau craffu presennol yn golygu bod y ffocws strategol ar gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ar draws adrannau'r Llywodraeth yn aml yn cael ei golli, ac rydym yn gobeithio y bydd cael trosolwg cliriach o'r blaenoriaethau o fewn pob portffolio yn ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26.

Rydym yn gobeithio y bydd ein myfyrdodau yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor wrth iddo gynnal ei waith ar y maes allweddol hwn.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

18 Mehefin 2024

Annwyl Peredur,

Craffu ar y gyllideb ddrafft

Diolch am y cyfle i roi adborth ar y gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 ar ran y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd, a Seilwaith. Rwyf wedi ystyried y materion a godwyd yn eich llythyr a hoffwn gynnig y sylwadau a ganlyn.

Roedd ansawdd y dogfennau a oedd yn cyd-fynd â'r Gyllideb ddrafft eleni yn anfoddhaol. Roedd gwybodaeth allweddol y gofynnodd y Pwyllgor amdani ar goll heb gydnabyddiaeth nac esboniad. Roedd sawl elfen arall yn anghywir neu'n anghyflawn.

Credwn fod yn rhaid i'r pwyllgorau gael y papurau tystiolaeth perthnasol yn gynharach a bod yn rhaid gwneud ymdrech benodol i sicrhau eu bod yn gywirach.  Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn gweithio o dan gyfyngiadau sylweddol yn y cyswllt hwn, o ystyried ei bod yn dibynnu cymaint ar amseriad proses gyllidebol Llywodraeth y DU. Mae'r amserlen ar gyfer gwaith craffu yn y Senedd yn cael ei gwtogi'n ddifrifol yn llawer rhy aml.

Fel y gwyddoch, yn dilyn newidiadau a wnaed i rolau gweinidogion yn ddiweddar, cafodd eu cyfrifoldebau eu had-drefnu'n sylweddol, yn enwedig cyfrifoldebau'r Gweinidog blaenorol dros Newid Hinsawdd. Mae cylch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith bellach yn ymwneud â phortffolios pedwar Ysgrifennydd Cabinet, gan gwmpasu meysydd polisi amrywiol a sylweddol, fel a ganlyn: Rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ddweud fy mod yn pryderu y bydd yn anodd i'r Pwyllgor graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, yn benodol, yn enwedig o ystyried bod pwyllgorau'n gweithio o fewn cyfyngiadau amser sylweddol. Rwy'n gobeithio y bydd y Pwyllgor Busnes yn rhoi sylw i'r mater hwn.

Hoffwn hefyd awgrymu bod y Senedd yn ystyried opsiynau amserlennu mwy hyblyg o fewn yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu. Gallai hyn gynnwys sesiynau diwrnod cyfan yn y Cyfarfod Llawn, cynyddu nifer y slotiau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor neu ymestyn yr amser sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd, a chynyddu nifer cyffredinol y diwrnodau a gaiff eu neilltuo ar gyfer busnes y Senedd yn ystod y cyfnod o graffu ar y Gyllideb ddrafft.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor Cyllid yn parhau i ymgysylltu ynghylch effeithiolrwydd y broses o graffu ar y gyllideb.

Yn gywir,

**Llyr Gruffydd AS,**
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

Mr Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Y Senedd
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN

**Cyfeirnod:** AC417/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 11 Mehefin 2024

Annwyl Peredur

## Aelodaeth o Swyddfa Archwilio Cymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref 2024.

Rydym hefyd yn gweld y digwyddiadau diweddar ynghylch cyn-Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru yn destun gofid mawr ac rydym hefyd yn dymuno na chaiff sefyllfa o'r fath fyth ei hailadrodd. Diolch am eich cynigion i helpu i liniaru risgiau unrhyw ailadrodd tebyg, yr ydym yn ymateb iddynt ar ran Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn unol â'ch cais, rydym wedi cyfarwyddo Ysgrifennydd y Bwrdd i anfon ymlaen at Glerc y Pwyllgor Cyllid ar adeg eu cyhoeddi, hysbysiadau o newidiadau buddiannau ychwanegol a newidiadau buddiannau eraill a ddatganwyd gan aelodau anweithredol o'r bwrdd. Fel y soniwch yn eich llythyr, fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb ar yr aelod unigol i hysbysu'r Pwyllgor Cyllid yn unol â'u telerau ac amodau. A chan y bydd anfon hysbysiad o fuddiannau datganedig ond yn helpu'r Pwyllgor i nodi problemau ar ôl y ffaith (ni fydd yn ei hun yn fesur ataliol) byddwn yn pwysleisio i'r aelodau ei bod yn hanfodol eu bod yn hysbysu'r Pwyllgor o'u bwriad i ymgymryd â swyddi a gweithgareddau ychwanegol ymhell cyn eu cymryd.

Yn unol â'ch cais, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfarwyddo staff perthnasol i ychwanegu at y rhaglenni sefydlu a hyfforddi ar gyfer aelodau, fel eu bod yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd o ofynion y Pwyllgor Cyllid wrth ymgymryd â rolau newydd.

Rydym yn ddiolchgar eich bod wedi ysgrifennu at yr aelodau anweithredol presennol i'w hatgoffa o'r darpariaethau sy'n ymwneud â'u penodiadau, yn enwedig eich gofynion o ran telerau ac amodau ynghylch hysbysu'r Pwyllgor o unrhyw newidiadau

i'r ymrwymiadau presennol. Mae'n ddefnyddiol eich bod yn egluro i'r aelodau y gallant ofyn am gyngor y Pwyllgor cyn ymgymryd â rolau ychwanegol.


Byddwn yn parhau i roi cyngor i'r aelodau ar faterion o'r fath o ran Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, sy'n hanfodol i archwilio'n briodol. Byddem yn hapus i'n swyddogaeth Moeseg gysylltu â'ch Clerc ynglŷn â materion o'r fath, ac yn wir credwn y byddai cyswllt o'r fath yn ddefnyddiol.

Rydym yn parchu ac yn deall yn llawn y penderfyniad a wnaeth y Pwyllgor mewn perthynas â gwaharddiad y cyn Gadeirydd. Heb ragfarnu unrhyw un o'r mesurau uchod, fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol ein bod wedi derbyn cyngor cyfreithiol gan y Cwnsler sy'n nodi mai dehongliad culach o ystyr "y Goron" yn erthygl26 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yw'r farn well. Mae'n amlwg ei bod yn bwysig bod cyrff cyhoeddus, gan gynnwys ein cyrff ni, yn ystyried y cyngor cyfreithiol y maent yn ei gael. Yn unol â hynny, er y bydd ein cyfnod sefydlu a'n hyfforddiant ar gyfer aelodau yn adlewyrchu'n llawn y safbwynt y mae'r Pwyllgor wedi'i gymryd, ar gyfer gweithgareddau sy'n gyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru - megis asesu rheoleidd-dra wrth archwilio cyfrifon Cronfa Gyfunol Cymru a chyflogaeth ein staff - byddwn yn cael ein harwain gan gyngor ein Cwnsler ein hunain.

Fel yr ydym wedi crybwyll ac yn wir wedi cyflwyno'n ffurfiol i ragflaenwyr y Pwyllgor dros y blynyddoedd, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ddiffygiol mewn sawl ffordd. Mae'r digwyddiadau anffodus diweddar hyn wedi'u gwreiddio mewn diffyg eglurder yn y Ddeddf ac mae gwendidau mwy arwyddocaol a fyddai, os eir i'r afael â nhw, yn rhoi trefn archwilio gryfach, fwy cydlynol i Gymru a'r Senedd ar ôl 2026. Felly, rydym yn gobeithio y bydd y Pwyllgor yn ystyried diwygio Deddf 2013 ac byddem yn hapus i gefnogi gwaith o'r fath.

Yn olaf, er bod yr ychydig fisoedd diwethaf wedi bod yn anodd, hoffem gofnodi ein diolch i chi, y Pwyllgor a'ch staff am y ffordd agored a chwrtais yr ydym wedi gweithio gyda'n gilydd.

Yr eiddoch yn gywir



**DAVID FRANCIS**
**Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol**



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
Drwy e-bost

13 Mai 2024

Annwyl Adrian

Aelodaeth o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Cawsoch wybod gennyf ar 15 Ebrill 2024 fod Kathryn Chamberlain wedi'i hanghymhwyso fel aelod, ac fel Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, yn sgil ymgymryd â rôl o 1 Ionawr 2024 a oedd yn anghymwyso, yn unol â Pharagraff 26 o Atodlen 1 i Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Fel y soniwyd ar y pryd, cefais fod hon yn sefyllfa anffodus iawn, ac roeddwn yn hynod siomedig fod cyfnod Kathryn Chamberlain wedi dod i ben yn gynamserol.

Mae'n siŵr gennyf y byddai'r ddau ohonom yn dymuno gwneud yn siŵr nad yw'r sefyllfa hon yn codi eto. Fel Pwyllgor, rydym wedi trafod camau i liniaru'r risg, a hoffem i Archwilio Cymru gymryd y camau rhagweithiol a ganlyn.

Nodwn fod aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi hysbysiad o'u buddiannau yn rheolaidd ar wefan Archwilio Cymru, sy'n cynnwys unrhyw ymrwymiadau ychwanegol, a rolau â thâl a gyflawnwyd. Mae'r dull hwn wedi'n calonogi, fodd bynnag, fel mesur diogelu ychwanegol gofynnwn i unrhyw ddiweddariadau a wneir i gofrestrau Aelodau Anweithredol y Bwrdd gael eu rhannu â Chlerc y Pwyllgor Cyllid. Er mai'r unigolyn sy'n parhau i fod yn gyfrifol am hysbysu'r Pwyllgor Cyllid yn unol â'i delerau ac amodau, bydd y dull hwn yn sicrhau bod unrhyw bryderon ynghylch ymrwymiadau Aelodau Anweithredol yn cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor.

At hynny, mae'r Pwyllgor yn gofyn am newidiadau i'r rhaglenni sefydlu a hyfforddi ar gyfer Aelodau Anweithredol, fel eu bod yn cael eu hatgoffa o'r gofynion wrth ymgymryd â rolau newydd.

Byddwch yn gwerthfawrogi ei bod o fudd i'n dau ni sicrhau bod aelodaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydlog, a bod enw da ac uniondeb trefniadau llywodraethiant Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hamddiffyn, a'u bod y tu hwnt i anghlod.

Hoffwn eich sicrhau bod y Pwyllgor, hefyd, yn cymryd camau yn y maes hwn, ac rwyf wedi ysgrifennu at yr Aelodau Anweithredol presennol yn eu hatgoffa o’r darpariaethau cyfreithiol sy’n ymwneud â’u penodi, a’r gofynion yn eu telerau ac amodau ynghylch hysbysu’r Pwyllgor am unrhyw newidiadau i ymrwymiadau presennol. At hynny, rwyf wedi ei gwneud yn glir y gallant ofyn am gyngor y Pwyllgor cyn ymgymryd â rolau ychwanegol.

Byddaf, hefyd, yn parhau i roi arweiniad clir i ddarpar ymgeiswyr ar gymhwysedd fel rhan o ymgyrchoedd recriwtio Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol, yn ogystal â chynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy trylwyr cyn penodi.

Hyderaf y gallwn gydweithio ar y materion hyn.

Os bydd angen unrhyw eglurhad pellach arnoch, neu wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â'm prif swyddog: Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor, 0300 200 6388, SeneddCyllid@senedd.cymru.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.